# Y DINESYDD

Mai 2022 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 468 £1.20



**Côrdydd**
**Enillwyr**
**Côr Cymru 2022**
**tud. 21**






**Tîm buddugol bl.8**
**Ysgol**
**Bro Morgannwg**
**tud. 10**

**Bechgyn Glantaf yn rhan o dîm Ysgolion Caerdydd dan 15 a enillodd y darian Dewar**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Bríd Price**

***Golygydd Mehefin:***
***Miranda Morton***

Cyfraniadau erbyn 27 Mai at:
miranda.morton@virginmedia.com
32 Stryd Arthur, Y Rhath,
Caerdydd, CF24 1QR
07713 765692

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

## Gair gan Olygydd y Mis

Helo na! Croeso i rifyn Mai 2022 *Y Dinesydd*. Gobeithio'ch bod yn mwynhau'r tywydd brafiach. Dwn i ddim amdanoch chi, ond rydw i'n ffeindio bod gweld awyr las yn y bore yn falm i'r enaid ac yn ddechrau da i'r diwrnod. Ond rhywbeth arall sy'n ddechrau da i'r diwrnod ydy cael gafael ar gopi o *Y Dinesydd*, paned o de a chymryd ennyd i ddarllen beth ydy'r newydd ymysg Cymry Cymraeg Caerdydd.

Roeddwn i'n ddigon ffodus i allu mynychu'r Gynhadledd Papurau Bro eleni. Oeddech chi'n gwybod, o'r holl ffynonellau print, mai'r papurau bro sy'n dal eu tir fwyaf? Efallai na ddylai hynny fod yn syndod gan mai nhw yw prif ffynhonnell print newyddion lleol erbyn hyn.

Mae tueddiad ers rhai blynyddoedd i gofnodi newyddion lleol, boed yn llwyddiant un o'n hanwyliaid, yn newyddion am briodas neu enedigaeth, ar y cyfryngau cymdeithasol. Does dim o'i le ar hynny ynddo'i hun wrth gwrs, ac mae'n ffordd gyfleus o rannu ein newyddion. Ond mewn blynyddoedd i ddod, prin fyddwch chi'n gallu cael hyd i erthygl *Facebook* neu *Twitter* am lwyddiant mab, merch neu wyrion, neu hysbysiad priodas, neu deyrnged. Ond gallwch drysori copi neu glip allan o *Y Dinesydd* yn cynnwys y newyddion hyn am byth. Felly cadwch y newyddion i ddod, yn erthyglau a lluniau! P'un ai ydych yn unigolyn gyda diddordeb penodol, neu'n dod ar draws newyddion o ddiddordeb lleol, neu os ydych yn cynrychioli mudiad, ysgol neu fusnes, rydym wrth ein boddau yn eu darllen i gyd.

Yn y rhifyn hwn mae gennym wledd ar eich cyfer, yn cynnwys erthygl hynod ddiddorol ac amserol gan yr Athro Gareth Edwards am ei brofiadau'n ymweld â Rwsia cyn dymchwel yr Undeb Sofietaidd.

Ac mae ein colofnau rheolaidd mor ddiddorol ag erioed. Yn Murmur y Meic gallwch ddarllen stori am "*The one that got away*" Hannah Roberts. I ddarganfod aelod o ba gapel sy'n cerdded 70K ar gyfer elusen a phwy gafodd enwebiad am Oscar yn ddiweddar, darllenwch y Newyddion o'r Eglwysi. Mae Lowri Haf Cooke yn adrodd ei hanes wrth ymweld ag un o dai bwyta newydd Caerdydd a'i phrofiad wrth oresgyn Covid-19 a cheir cyngor doeth gan ein cyfrifydd yn Gwylio'r Geiniog a newyddion chwaraeon gan Hywel Owen unwaith eto. I'r rhai ohonoch sy'n ymddiddori yn 'Y Pethe', cofiwch ddarllen colofn Pobl y Rhigwm.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn ac i'r cysodydd Eirian sy'n gweithio'n galed bob mis – fyddai na ddim papur hebddi. A fyddai na ddim papur chwaith hebddoch chi, felly diolch i chi'r darllenwyr am eich cefnogaeth. Mwynhewch!

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.

*“gwyn ein byd wrth edrych ymlaen at lu o ddigwyddiadau sy’n ail gychwyn”*



Mae hi’n fis Mai yn barod a dyma fis geni’r bardd Eifion Wyn ac fel hyn y dywed y bardd yn ei delyneg i fis Mai “Gwn ei ddyfod fis y mêl/Gyda’i firi, gyda’i flodau/Gyda dydd fy ngeni innau/Gwyn fy myd bob tro y dêl” - a gwyn ein byd ninnau hefyd wrth edrych ymlaen at lu o ddigwyddiadau sy’n ail gychwyn gan ddechrau hefo Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych ar ddiwedd y mis hwn ac yna yn Awst cynhelir y Genedlaethol yn Nhregaron a thros y misoedd nesa cynhelir y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd, Gŵyl Fach y Fro yn y Barri, Tafwyl, Sioe Môn, Sesiwn Fawr Dolgellau, Eisteddfod Llangollen ac ati.

Mae hi’n flwyddyn arbennig i Eisteddfod Llangollen eleni gan ei bod yn dathlu saith deg pum mlynedd ers ei sefydlu nôl yn 1947 ac sy ar hyd y blynyddoedd wedi denu cystadleuwyr o bedwar ban byd i ddod â lliw a chyffro i’r Ŵyl. Bydd yr Eisteddfod yn fyrrach nag arfer eleni, ac yn para o Ddydd Iau i Ddydd Sul ond bydd nifer o gystadlaethau newydd i gadw diddordeb yr ymwelwyr â’r Ŵyl.

Trist oedd deall bod yr unig gapel Cymraeg yng Nghanada yn cau, sef Eglwys Dewi Sant Toronto oherwydd lleihad sylweddol yn yr aelodaeth ac ati. Mae’r un peth wedi digwydd yn yr Unol Daleithiau lle bodolai nifer sylweddol o gapeli Cymraeg ar hyd a lled y wlad anferth hon. Rhyfedd meddwl bod 500 o aelodau yng Nghapel Cymraeg Hebron yn Chicago yn 1901 a chaeodd Capel Cymraeg Los Angeles ychydig amser yn ôl hefo Cyngerdd gan y Tri Thenor o Gymru. Er i nifer sylweddol o Gymry ymfudo i Seland Newydd a De Affrig does dim sôn eu bod wedi sefydlu capeli Cymraeg yno. Hwyrach bod y sêl grefyddol wedi pylu erbyn hynny! Ond yn Awstralia mae dau gapel Cymraeg yn dal ar agor yn Sydney a Melbourne.

Yma yng Nghymru mae nifer o gapeli Cymraeg a Saesneg yn cau eu drysau oherwydd trai ar grefydd ond yng Nghaerdydd mae’r Capeli Cymraeg ac Eglwys Dewi Sant yn dal ar agor a dim sôn am gau. Yn yr Eglwys Newydd mae’n bosibl addoli yn y Gymraeg yn Eglwys Ebeneser a’r Eglwys Efengylaidd Gymraeg tra yn Rhiwbeina mae’n bosibl addoli yn y Gymraeg ers 1982 ers i Gapel Wesleaidd Bethel ddod o ganol Caerdydd i ymgartrefu yn y pentre, a dyma’r tro cyntaf i allu addoli yn y Gymraeg yn Rhiwbeina ers 1898 pan drodd capel Beulah ynghanol y pentre i fod yn gapel Saesneg ei hiaith!

Y mis diwethaf cynhaliwyd Râs Hanner Marathon Caerdydd pan y denwyd dros ugain mil o redwyr i gymryd rhan yn y râs hon a ystyrir yn un o’r rhai mwyaf poblogaidd nid yn unig yng Nghymru ond yng ngweddill Prydain. Nôl ym Medi 1986 cymerais i ran yn y râs hon ar ôl paratoi am flwyddyn a minnau yn 51 oed ar y pryd! Odd y chwiw rhedeg wedi cydio yno’i wrth wylio Marathon Llundain ar y teledu! Sôn am wefr wrth sefyll ynghanol y miloedd o redwyr ar Heol y Gogledd yn aros i’r canon danio i arwyddo dechrau’r râs. Dwi’n cofio edrych yn ôl ar y *Fly over* yn Gabalfa a gweld miloedd yn rhedeg y tu ôl i mi ac yna edrych ymlaen i weld y miloedd o’m blaen! Ond o y pleser wrth orffen y râs a chael medal i hongian o gwmpas fy ngwddw fel pawb arall a orffennodd y râs! Cyflawnais i’r gamp mewn awr a phedwar deg chwech o funudau! Ond dyna ddigon o ganmol fy hun am y tro!

Eleni, mae’r cerddor a’r arweinydd cerddorfeydd Owain Arwel Hughes yn dathlu ei benblwydd yn bedwar ugain oed. Dechreuodd ei yrfa gerddorol pan oedd o’n llanc 17 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Howardian yn y ddinas a thra yno aeth ati i sefydlu côr cymysg o bobl ifanc yn Aelwyd yr Urdd yn y ddinas i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Bu’n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd a Llundain wedi hynny a blodeuodd ei yrfa yn y byd cerddorol nes iddo ddod yn enwog nid yn unig ym Mhrydain ond ymhellach hefyd. Fo oedd yn gyfrifol am sefydlu a threfnu’r “Proms Cymreig” yn Neuadd Dewi Sant yn y ddinas ar hyd y blynyddoedd. Penblwydd Hapus Owain gan obeithio dy fod yn darllen *Y Dinesydd* yn dy gartre yn Llundain a phob llwyddiant i ti yn y dyfodol!

Cafwyd noson wefreiddiol yn y gêm bêl droed rhwng Cymru ac Awstria yn Stadiwm Pêl Droed Caerdydd a choronwyd y noson hefo dwy gôl gan y seren Gareth Bale sy’n golygu ein bod yn dal yn y râs i ymddangos yng Nghystadleuaeth Cwpan Pêl Droed y Byd yn Qatar ym mis Tachwedd ond i ni guro naill ai yr Wcráin neu’r Alban ym mis Mehefin. Felly pob lwc Cymru. Cafodd y Wal Goch hwyl arni yn ystod y noson yn erbyn Awstria ac odd ymddangosiad Dafydd Iwan yn canu “Yma o Hyd” cyn y gêm yn ddigon i weindio pawb a chawson ni ddim ein siomi hefo’r canlyniad!

Amhosibl ydy peidio â sôn am y rhyfel yn yr Wcráin sy’n hoelio sylw’r byd ar hyn o bryd â Putin a’i fyddin yn destun dicter mawr y byd gwâr. Rhaid canmol dewrder pobl Wcráin dan arweiniad ysbrydoledig Volodymyr Zelensky am eu safiad yn erbyn Rwsia. Brysied y dydd pan daw heddwch yn ôl i’r rhan hon o Ewrop.

Yn ôl a ddeallaf mae’r firws felltith yn dal i gylchdroi yng Nghaerdydd a felly rhaid dal i fyw’n ochelgar gwaetha’r modd. Felly cadwch yn saff ond mwynhewch ddyfodiad yr haf i lonni ein calonnau!

## Allan Cook yn rhannu rhai o'i atgofion

***John Emyr:*** *Diolch ichi am gytuno â'm cais i'ch cyfweld. Hoffwn ddechrau drwy ofyn hyn: Pryd wnaethoch chi ddechrau gweithio yng nghanolfan y BBC, Llandaf.*

Chwefror 1, 1971. Dechreuais i yn is-reolwr llawr. Roedd y BBC, yn arbennig y BBC yn Llundain, yn hoffi pobl â phrofiad theatr. Am y chwe mis cynta', wnes i ddim byd ond y rhaglenni *Wales Today* a *Heddiw*, gan weithio gyda Robin Jones ac Alun Evans.

*Beth oedd natur y gwaith?*



**Llun: David Cargill**

Roedd yr is-reolwyr llawr yn rhedeg y stiwdio newyddion, fel arfer. Ond roedden nhw hefyd yn gweithio ar wahanol raglenni. Profiad newydd i mi oedd gweithio ar raglen i blant gyda Dewi 'Pws' Morris a Huw Ceredig, sef *'Nôl Mewn Pum Munud*. Fi wnaeth roi'r teitl i'r gyfres. Mae gweithio gyda Dewi 'Pws' yn brofiad anhygoel. Wedyn fe gefais brofiadau diddorol eraill: er enghraifft, ail a thrydedd gyfres *Fo a Fe*, gyda chriw y gyfres honno. Fe weithies i dipyn gyda *Ryan a Ronnie*. Roeddwn i'n meddwl, ar y pryd, y byddai 'nyfodol i gydag adloniant ysgafn, achos adloniant ysgafn oedd y rhan fwyaf o BBC Cymru ar y pryd. Meredydd Evans oedd pennaeth yr adran – person rhyfeddol o ddawnus. Roedd cymaint o symud a phethau'n digwydd yn yr adran.

*Roeddech chi yno mewn cyfnod o fwrlwm.*

Oeddwn, roedd yn gyfnod o fwrlwm mawr iawn. Ac wrth gwrs, roedd teledu yn newid yn y cyfnod hwnnw. Pan ddechreuais i yng Nghaerdydd, dim ond rhaglenni du a gwyn oedd yn cael eu gwneud, ac ychydig iawn ohonyn nhw oedd yn cael eu recordio. Rhywbeth newydd oedd recordio. Teitl un o'r sioeau Saesneg oedd *Late Call*, a dwi'n cofio treulio wyth awr yn golygu un o'r tapiau – oedd yn cynnwys deunydd wedi'i recordio – i gael eitem fer o dri munud yn y diwedd. Mae hynny'n dangos mor gymhleth oedd gwaith recordio yn y cyfnod hwnnw.

*Rydych chi wedi cael y profiad o weithio gyda phobol ddawnus iawn. Pa rai sy'n sefyll yn y cof erbyn hyn?*

Pobol fel Ronnie a Ryan, wrth gwrs; Gari Williams, y digrifwr; Bryn Williams a Myfanwy Talog. Mae'n rhyfedd meddwl cymaint o dalentau ifanc rydym wedi'u colli yn y Gymru Gymraeg. Roedd cymaint mwy ganddyn nhw i'w roi.

*Oedd yna lawer o chwerthin a hwyl yn eu cwmni?*

Oedd, yn aml. Ond roedd yn gyfnod llawn her hefyd. Roedd rhaid i bawb weithio o fewn y cyfyngiadau technegol ac undebol.

*Pa atgofion sy'n sefyll yn y cof o gyfnod arloesol S4C?*

Ar y dechrau yn S4C doedd dim llawer o wahaniaeth oherwydd, ar y pryd, roedd y BBC yn gyfrifol am saith awr yr wythnos yn Gymraeg, ac roedd HTV yn gyfrifol am dair awr yr wythnos. Felly, deg awr o raglenni Cymraeg a gâi eu paratoi. Ac yn y cyfnod cynnar hwnnw roedd hawl gan S4C i ddefnyddio rhaglenni Channel 4, i lenwi'r bylchau. Roedd pethau'n datblygu drwy'r amser. Er enghraifft, yng nghyfnod dechreuol S4C doedd dim hawl gan y sianel i roi hysbysebion yng nghanol rhaglenni fel *Pobol y Cwm*. Ac roedd amserlen y ddarpariaeth o raglenni'n datblygu.

*Pa ran a gawsoch chi yn y gwaith o chwilio am raglenni o wledydd eraill?*

Ar ôl imi orffen bod yn is-reolwr llawr, fe es i yn gyfarwyddwr ac wedyn yn gynhyrchydd yn yr adran rhaglenni plant. Pennaeth y rhaglenni plant, ar y pryd, oedd y dawnus a'r amryddawn Dyfed Glyn Jones. Ro'n i'n gweithio ar nifer o raglenni plant: *Bilidowcar*; *Pili Pala* i'r plant lleiaf, ac yn y blaen. Hefyd, roeddwn i'n prynu i mewn nifer o raglenni. Ro'n i'n arbennig o hoff o raglenni o ddwyrain Ewrop; yn Slofacia yr oedd nifer o'r rhaglenni gorau'n cael eu gwneud. Byddwn yn mynd i ddinas Prâg bob dwy flynedd achos roedd gŵyl ganddyn nhw ym mis Chwefror bob yn ail flwyddyn. Roeddwn i'n prynu cartwnau oedd ganddyn nhw. Ac ar y pryd roedd Caerdydd tipyn ar y blaen i Lundain ym myd dybio, achos roedd stiwdio dybio gennym ni. Hefyd roedd yr actorion mor brofiadol, gallem ddybio yn weddol gyflym. Ac roedd sgrifenwyr profiadol fel Dyfed Glyn yn gallu darparu'r sgriptiau'n gyflym. Dwi'n cofio dybio drama gan munud ar gyfer y Nadolig, a gwneud hynny mewn tuag wythnos, achos roedd pobl fel Gareth Lewis a Dilwyn Owen yn dod i mewn i wneud y gwaith mewn fawr o dro. Yn y cyfnod cynnar hwnnw fe wnaeth Dyfed Glyn greu *Yr Awr Fawr*.

*Roedd y rhaglenni plant hynny yn ddylanwadol iawn.*

Oedden, roedden nhw'n bwysig achos roedd addysg Gymraeg yn datblygu ar y pryd, ac roedd angen rhaglenni o'r fath i ddiddanu'r plant ar ôl oriau ysgol. Roeddwn i yn yr adran blant am tua phymtheg mlynedd, a thra oeddwn i yn yr adran honno fe wnes i ddarparu pedair cyfres o ddramâu i blant. Cafodd dwy ohonyn nhw eu sgrifennu gan y llenor o Gorwen, John Selwyn Lloyd. A chafodd dwy gyfres arall eu sgrifennu gan Dyfed Glyn. Fe wnaethon ni ran o'r ffilmio yn y Bannau a rhan arall yn Hong Kong, a chefais foddhad yn paratoi'r cyfresi hynny.

Fe welodd John Hefin ran o'r gwaith, a gofynnodd a fyddwn i'n fodlon gwneud rhai penodau o *Pobol y Cwm*. Felly fe ddechreuais i ymwneud â *Pobol y Cwm* pan oedd y rhaglen yn wythnosol, yn mynd allan ar nos Sul, ar y pryd. Yn y cyfnod hwnnw, roedd *Pobol y Cwm* yn mynd allan 26 neu 27 gwaith y flwyddyn. Gwenlyn Parry oedd y cynhyrchydd a'r golygydd, ac fe ddechreuais i wneud dwy o'r rhaglenni i Gwenlyn. Am ryw reswm, cefais y cyfrifoldeb dros y bennod oedd yn mynd mas ar Fawrth y cyntaf. Roedd y criw i gyd yno: Harriet a Rachel a Gaynor a Dilwyn. Roedd hi'n dipyn o bennod. Wedyn, ar ôl hynny, am gyfnod hir, roeddwn i'n gyfrifol am tua thraean o *Pobol y Cwm*. Roedd cynhyrchu a chyfarwyddo'n rhan o'r gwaith.

*Llawer o ddiolch i chi am gytuno â'm cais i'ch cyfweld.*

# Colofn Natur

## *Caerdydd Cyfnod y Pliocene*



**Gethin Jenkins-Jones**

Pan wnes i ddarganfod, rhai blynyddoedd yn ôl, taw Caerdydd yw dinas wlypaf Prydain, doedd e'n fawr o syndod i fi. Ond, wrth feddwl am ein hymweliadau trwy hanes pell Caerdydd, mae'r hinsawdd - er wedi gweld sawl newid - wastad wedi bod yn gynnes ac yn (bennaf) sych. Ac rydym wedi teithio dros 300 miliwn o flynyddoedd hyd yma! Mae 'na sawl rheswm pam ddaeth yr oeri, a fe gychwynodd yn ystod cyfnod nesaf ein siwrne - y Pliocene!

Heddiw awn ni am dro 3 miliwn o flynyddoedd yn ôl, at ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae'n brynhawn hwyr ac, er bod yr haul yn gwenu'n braf ger y gorwel, mae cymylau bygythiol, llwyd uwch ein pennau. Mae perlau o ddŵr yn disgleirio ar y glaswelltdir ac ar y dail yn dystiolaeth bod cawod drom newydd basio. Wrth edrych ar y dail yn fwy manwl gallwn gasglu bod yr hinsawdd bellach yn llawer mwy tymhorol. Yr hydref yw hi, ac mae lliwiau'r dail yn cynnwys coch, oren a brown. Mae'n nodedig nad yw'r tywydd yn gynnes bellach, ac mae awel oer yn ein hannog i wisgo siwmper am y tro cyntaf ers sbel.

Mae sŵn brigau'n torri o'n blaen, ac rydym yn edrych lan i weld teulu o Macacau yn symud trwy'r coed, ag ambell fam yn cario eu hepil bychain ar eu cefnau. Mae'r mwncïod hyn i'w gweld 'mond yn Asia yn bennaf heddiw ond, yn ystod y Pliocene, roedd Ewrop yn lwcus i fod yn gartref i sawl rhywogaeth ohonynt hefyd. Ond nid ni yn unig sy'n edrych arnynt. Oddi tanynt mae Lynx - cath fawr â chlustiau trionglog - yn eu gwylio'n wyliadwrus, rhag ofn i un ohonynt gwympo oddi ar gangen wan. Er yn greadur oportiwnistaidd, mae'r Lynx, gan amlaf, yn ysglyfaethu ar geirw felly mae'n arwydd bod nhw wedi mudo i'r de at lefydd â phori gwell am y tro. I gymharu ag anifeiliaid arall y cyfnod hwn, dim ond yn gymharol ddiweddar y mae'r Lynx wedi esblygu ac mae eu perthnasau agos - y llewod - hefyd newydd ymuno â llwyfan bywyd. Bydd rhai ohonynt gerllaw dwi'n siŵr. Yn y cyfnod hwn, mae Lloegr dal wedi'i chysylltu â'r cyfandir, felly mae anifeiliaid a esblygodd ar y cyfandir yn gallu symud i fyw i Brydain yn rhwydd.

Fel ar ein trip diwethaf i gyfnod y Miocene, mae'r afon Taf yn llifo gerllaw, a nawr bod yr haul yn dechrau machlud mae dwsinau o ystlumod wedi ymgasglu i fwydo ar y pry uwchben wyneb y dŵr. Mae 'na gyffro oddi tan y dŵr hefyd. Mae grŵp gwasgarog o Stwrsiwn - pysgod anferth â chefnau pigog - wedi ymgasglu. Er mai heddiw yw'r tro cyntaf i ni eu gweld, mae'r cewri yma wedi bodoli ers cyfnod y Cretasaidd, rhyw 170 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Bellach ond nifer bach o anifeiliaid sydd dal gennym ers cyfnod y deinosoriaid. O'n blaen fodd bynnag mae anifeiliaid eraill o un o'n tripiau eraill i'r gorffennol pell. Nawr bod y gwyll ar gychwyn mae crawcian brogaod Palaeobatrachus i'w clywed. Gwelsom ni nhw ar ein siwrne gyntaf i oes y mamaliaid 63 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Ond, yn anffodus, dyma ddiwedd siwrne'r anifeiliaid hyn. Ni fyddant yn goroesi i'r cyfnod nesaf. Fel gymaint o amffibiaid eraill Ewrop, bydd yr oes iâ yn arwain at ddifodiant y brogaod mawr hyn.

Mi fydd yn amser i ni ddychwelyd i'r peiriant amser cyn hir, ond mae un sypreis arall o'n blaen. Ar ochr arall yr afon mae Dinofelis wedi dod i yfed - un o'r cathod dant sabr! Mae'r cathod hyn yn hynod o lwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn ac i'w gweld yn sawl rhan o'r byd. Ar ôl ychydig eiliadau gwelwn hi'n sleifio yn ôl i dywyllwch cynyddol y coed.

Y Pliocene oedd un o gyfnodau byrraf oes y mamaliaid, 'mond yn ymestyn o 5.3 i 2.8 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Ond fe welodd ddigwyddiad daearyddol sylweddol ynddi a wnaeth newid hinsawdd a bioamrywiaeth y ddaear am byth. Tua 3 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ymunodd Gogledd a De America, gan atal ceryntau morol twym rhag llifo rhwng cefnfor yr Iwerydd a'r cefnfor Tawel. Cafodd hyn effaith enfawr ar batrymau hinsoddol y byd, a phlymiodd y byd i oes iâ. A dyma le awn ni nawr - gwell rhoi ein cotiau ymlaen!

***Dinofelis***



***Llun: Laura Giles***

# Bwytai Merch y Ddinas




## "Cinio gyda'r Claf"

**Lowri Haf Cooke**

Maddeuwch i mi am swnio fel bach o ystrydeb ar hyn o bryd, ond ychydig dros ddwy flynedd ers dechrau'r pandemig ces fy heintio gan Covid-19. Dwi'n ffodus iawn yn fy achos i i'r clefyd gadw draw cyhyd, ond ers rhai misoedd bellach, wrth i'r cyfyngiadau lacio, roedd y sgrifen ar y mur. Yn ystod mis Mawrth, cafodd achlysuron di-ri eu gohirio yng Nghaerdydd, wrth i ffrind ar ôl ffrind – neu berthynas agos iddynt – gael eu heintio gan Covid-19. Clywais am bobol o bob oed yn syrthio'n sâl gyda'r pla, am y tro cyntaf, tua'r un pryd. Profiad rhyfedd ar y naw yw cofnodi hynny mewn du a gwyn, gan mai blaenoriaeth rhai pobol oedd ein siarsio ni gyd i goelio fod y pandemig drosodd ers tro byd.



Diolch byth nad oedd y sgil-effeithiau yn waeth nag oeddent, wir, a hefyd am ymdrechion pob gwyddonydd i greu brechlyn. Fe wyddwn i'n iawn pan deimlais fy ngwddw'n dechrau crafu, fod na rywbeth amgenach nag annwyd arna i. Yn naturiol, wedi'r holl bregethu, fe es i'n syth i hunan-ynysu – a hynny serch di-hidrwydd rhai gwleidyddion yn Llundain. Wel wrth gwrs y gwnes i. Nid sosiopath mohonof. Ond ro'n i'n bell o fod yn glaf perffaith...




Mae'n swnio'n hollol boncyrs ond wnes i'm gwarafun yr un cyfnod clo oherwydd hyd yn oed o dan y cyfyngiadau llymaf, o leia ces i fynd am dro. Roedd gorfod aros yn fy unfan yn hunan-ynysu 'go-iawn' tra mod i'n un slywen fawr lysnafeddog yn sioc i'r system. A feiddia i gyfaddef? Dewch yn nes i mi gael sibrwd... Ar brydiau, gyfeillion, roedd fy nghwmni diflas fy hun yn arteithiol o annymunol. Ac yn waeth na hynny, collais ddathliadau pen-blwydd ffrindiau a theulu dros wyliau'r Pasg. Och a gwae! O dan y fath amgylchiadau, rhyddhawyd fy arddegyn cwynfanllyd mewnol – un hunllefus o hunandosturiol. Beth alla i ddweud? Gallaf ond ymddiheuro'n daer am fod yn feidrol! Ond o ddifri nawr, pob cydymdeimlad gyda phawb sydd wedi bod yn hunan-ynysu 'go-iawn' am llawer iawn mwy na deg diwrnod.

Diolch felly i aelodau'r teulu am adael bwyd ar drothwy'r drws – a negeseuon lu gan ffrindiau. Trwy ryw ryfedd wyrth ni chollais fy synnwyr blasu nag arogli. Bydde hynny, yn wir, wedi bod yn ddigon amdana i. Felly beth alla i gyfrannu i'r golofn fwytai fisol hon? Gair o ganmoliaeth yn gyntaf i fecws Tŷ Melin, Heol Wellfield – codwyd fy nghalon rhyw fymryn gan eu 'torth groes' dymhorol, eu cynnig arbennig dros benwythnos y Pasg. Gair hefyd (serch y geiriau croes) i ddiolch i mi fy hun (sbo!), am ffeindio'r nerth i greu cawl cyw iâr. Ansawdd y stoc yw'r gyfrinach, gyfeillion, felly *os* oes ganddoch chi'r nerth (tra'n teimlo'n swp sâl) ewch ati i rostio cyw iâr! Wedi 'gwledda' ar hwnnw, daliwch eich gafael ar sbarion y cig, cyn berwi'r esgyrn gyda moron a chennin. Yna gwaredwch yr esgyrn, cyn ychwanegu'r cig at y potes gyda rhagor o lysiau a halen a phupur. 'Bone broth' bellach yw'r term ffasiynol ar yr isgell hudol hwn - ffrind gorau pob claf ers cyn cof.

A minnau wedi colli parti ffrindiau (och) a hyd yn oed dathliad pen blwydd fy nhad fy hun (aaaarghhhh), ro'n i'n benderfynol – unwaith ro'n i'n holliach – o ganfod rhywle newydd i sgwennu amdano ar gyfer y golofn hon. Mae'n draddodiad yn y byd bwytai i gau ar ddydd Llun, i roi 'penwythnos hwyr' i'r gweithwyr, er mwyn rhoi cyfle iddyn ddod atyn nhw eu hunain. Ond gallwch chi wastad ddibynnu ar y gwestai mawr, gan gynnwys lleoliad newydd crand Parkgate. Ro'n i eisioes wedi cael cip ar y bar swanc ar Westgate Street ar nos Wener ym mis Ionawr - a chael siom ar yr ochr orau, rhaid dweud. Mae canol y ddinas yn llawn adeiladau crand o droad yr Ugeinfed Ganrif – pan oedd Caerdydd ar ei hanterth. Ond ffawd nifer ohonynt dros y degawdau diwethaf oedd sefyll yn wag, neu droi'n swyddfeydd di-lun. Felly mae datblygiad gwesty pedair seren y Parkgate yn gam hynod gyffrous i 'geek' daearyddol fel fi. Mae mynedfa yr adeilad – yr hen swyddfa bost ganolog, sy'n dyddio o 1897 – yn bendant yn cynnig gwefr. Ceir awyrgylch 'gwesty rhyngwladol' yno, dodrefn chwaethus ac addurniadau Art-Deco... a bwydlen dau gwrs am £25 i ginio yno.

Y peth gorau am fwydlen 'The Sorting Room' yw'r pwyslais ar gynhwysion Cymreig. Ynghyd â'r gwinoedd cyfandirol arferol, gallwch archebu gwin coch neu win gwyn White Castle o Sir Fynwy – ond â minnau awydd

dymuno'n dda i fy 'iechyd da', ês i am y coctel jin, *A Postcard From Wales*. Digon pleserus wir oedd y cyfuniad o jin Aberhonddu, ysgawen, leim a mintys - nid anhebyg i 'mojito' Cymreig. Roedd y cwrs cyntaf yn rhagorol - 'ŵy Sgots' cig moch â saws surfelys Mari Waedlyd, yn damaid gwych i aros pryd. Roedd y dewis yn helaeth ar gyfer y prif gwrs; ymysg y danteithion roedd pei cwrw a chig eidion, gnocci llysieuol a draenog y môr. Ond es i eto am y cig moch; bol porc wedi'i rostio am 12 awr, a'i weini â saws seidr afal a 'sudd' cwrw sinsir, cabaits ffres a 'galette' tatws a saets. Ardderchog wir - tan i mi grensian madruddun (cartilage) rhwng fy nannedd, na ddylai fod yn besennol gyda bol porc. Chwarae teg i'r cogydd a'r weinyddes Kim (Cymraes Gymraeg gyfeillgar o Abertawe), ces i ymddiheuriad a chynnig o bwdin yn rhad ac am ddim. Pwy oeddwn i i wrthod? Roedd y pwdin taffi gludiog yn felys a chyfoethog, a'r hufen iâ blas mêl o Aberhonddu gan Mario's o Sir Gaerfyrddin.

A fydden i'n dychwelyd? Bydden, yn wir. Mae'r gofod chwaethus yn fy atgoffa o 'Holborn Dining Room' yn Llundain, a phe bai ymwelwyr rhyngwladol yn cyrraedd y ddinas o'r orsaf ganolog gyfagos, bydden i'n hapus i'w danfon nhw yno am gyfarfod, neu ddiod i ddechre'r noson – yna eu hannog i fentro i un o'r bwytai gwych lleol fel Casanova, Asador 44 neu Curado, *cyn* profi bwydlen y 'Sorting Room'. Megis dechrau mae'r tymor ymwelwyr, ac mae'n ofod moethus braf a chanolog sy'n cynnig perspectif newydd ar hanes ysblennydd y ddinas. Dwi'n falch i mi fentro; ges i ginio i godi'r galon gafodd wared ar yr hen felan yn llwyr.

**The Sorting Room, Gwesty Parkgate, Stryd Westgate CF10 1DA; 02922 745595**

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un.**

## Rhoi Llyfr yn Anrheg

Fel rhan o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgyrch rhoi llyfr yn anrheg, mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi cyflenwi dros 40,000 o lyfrau i'r banciau bwyd, sefydliadau cymunedol a grwpiau lleol eraill er mwyn sicrhau bod llyfrau ar gael i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau lleol.

Mae meithrin cariad at ddarllen yn greiddiol i waith Cyngor Llyfrau Cymru. Ers dechrau pandemig Covid-19, mae wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd rhoi llyfr yn anrheg gyda grwpiau dethol megis teuluoedd, gofalwyr ifanc a phlant sy'n derbyn gofal. Roedd darparu llyfrau ac adnoddau yn un ffordd o gefnogi plant a theuluoedd trwy effeithiau'r pandemig, sef gorfod ynysu'n gymdeithasol a'r effaith ar eu lles a'u hiechyd meddwl a'u canlyniadau addysgol.

Un o brif amcanion y rhaglen Caru Darllen Ysgolion a rhoi llyfr yn anrheg i blant yw darparu dewis o adnoddau darllen deniadol o ansawdd uchel i deuluoedd eu defnyddio gartref.

Dywedodd Shoned Davies, Rheolwr Caru Darllen Ysgolion Cyngor Llyfrau Cymru: "Mae wedi bod yn wych cael cydweithio gyda'n cyfeillion a'n partneriaid yn y Trussell Trust, FareShare Cymru, IFAN (Independent Food Aid Network – y Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol) a nifer o grwpiau cymunedol ledled Cymru i ddosbarthu'r llyfrau hyn. Dewiswyd y llyfrau hyn, sydd o ansawdd uchel, o blith y rhai gan gyhoeddwyr yng Nghymru a werthodd orau i gynnwys ystod eang o ran oedran, pynciau a theitlau fel y gall pawb ddewis y llyfr iawn ar eu cyfer nhw. Diolch i'r cyhoeddwyr am sicrhau bod y llyfrau hyn ar gael i blant Cymru eu mwynhau."

Dywedodd Susan Lloyd-Selby, Arweinydd Rhwydwaith y Trussell Trust yng Nghymru: "Rydym mor ddiolchgar am y miloedd o lyfrau a ddarparwyd ar gyfer ein banciau bwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru. Diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, mae'r fenter hon wedi galluogi'r banciau bwyd i ddarparu llyfrau i blant y gallai eu teuluoedd ei chael hi'n anodd eu fforddio fel arall. Roedd ansawdd ac amrywiaeth y llyfrau a ddarparwyd yn wych ac mae wedi bod yn hyfryd




clywed pa mor gyffrous mae'r plant wedi bod i dderbyn eu llyfrau.."

Ychwanegodd Tom Mogford, Cydlynydd Aelodau Bwyd Cymunedol, FareShare Cymru: "Mae llawer wedi sôn am y croeso mawr a roddwyd i'r llyfrau hyn, gyda llawer o blant a rhieni hapus - anrheg i'w chroesawu'n fawr.

Dyma'r cam cyntaf wrth i Gyngor Llyfrau Cymru gyflawni cynllun rhoi llyfr yn anrheg Llywodraeth Cymru. Cam nesaf y buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd i ymgysylltu â darllen fydd rhoi llyfr yn anrheg i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed drwy bob ysgol wladol yng Nghymru, a chynllun Rhoi Llyfr yn Anrheg i Ysgolion, lle bydd pob ysgol wladol yn derbyn detholiad arbennig o lyfrau ar gyfer eu llyfrgell.

Bydd y cynllun Caru Darllen Ysgolion yn golygu bod pob dysgwr ledled Cymru yn cael mynediad cyfartal at ystod amrywiol o lenyddiaeth apelgar o safon, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sydd wedi'i dewis yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles: "Mae darllen yn sgìl sylfaenol ym mron pob agwedd ar fywyd. Rwyf am danio'r angerdd tuag at ddarllen ar gyfer ein holl blant a theuluoedd. Drwy'r cynllun cyffrous hwn i roi llyfr yn anrheg, fel rhan o'r buddsoddiad ychwanegol o £5m gan Lywodraeth Cymru, rwyf am sicrhau bod gan bob dysgwr yng Nghymru ei lyfr ei hun i'w gadw."

# Merched y Wawr Bro Radur

Yn unol ag arfer cangen Merched y Wawr Bro Radur, ar nos Fercher 6 Ebrill cynhaliwyd Noson i'r Dysgwyr. Unwaith eto eleni, Dr Eirian Dafydd a lywiodd y noson, a chawsom gwmni dysgwyr y Gymraeg sy'n aelodau o'r gangen ynghyd â dysgwyr o bell ac agos. Drwy gyfrwng Zoom, ymunodd Simon Owen-Williams â ni o Efrog Newydd a chafodd ef gyfle i holi cwestiwn i'r ddau westai.



David Thomas oedd y gwestai cyntaf, sef enillydd teitl Dysgwr y Flwyddyn y llynedd yn yr Eisteddfod AmGen. Yr ail westai oedd Dr Sue James sy'n aelod o'r gangen hon ers iddi symud i'r ardal yn ystod y Clo.

Roedd yn ddiddorol deall i'r ddau gael eu magu yng Nghaerdydd ac mai fel oedolion y dysgon nhw siarad Cymraeg. Daw David Thomas yn wreiddiol o Riwbeina, ac wedi mynd i'r Brifysgol yn Llundain, ymsefydlodd yno gan ddechrau gweithio mewn ysgolion rhyngwladol. Golygai hyn lawer o deithio i lefydd fel Qatar, ac aeth Cymru yn brofiad pell yn y cof.

Magwyd Dr Sue James yng Nghaerdydd, ac aeth hithau i Lundain i astudio gan hyfforddi i fod yn feddyg teulu.

Dychwelodd David a'i bartner Anthony i Gymru yn 2016 i gadw fferm hen ffasiwn yn ardal Talog, Caerfyrddin. Ymhen dipyn dechreuodd y ddau gynhyrchu 'Jin Talog'. Mae'r ddistyllfa wedi ennill gwobrau, ac mae'r iaith Gymraeg wedi agor llawer o ddrysau i'r cwmni, meddai David.

Symudodd Dr Sue James yn ôl i Gymru yn 1997 wedi profiad o weithio fel meddyg teulu yn Chichester. Roedd gweithio fel meddyg ym Mlaenafon yn brofiad go wahanol, meddai. Dechreuodd ddysgu Cymraeg yng Ngholeg Gwent ac ar gyrsiau penwythnos, a chafodd gyfle i gymdeithasu drwy gyfrwng yr iaith yng nghangen Merched y Wawr y Fenni a gweithgareddau lleol i godi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yno yn 2016.

Llongyfarchwyd y ddau a diolchwyd am noson hwyliog.

Bydd ein gwibdaith i ymweld â Llys Llywelyn yn Sain Ffagan yn cychwyn am 2.00 o'r gloch ar brynhawn dydd Mercher 8 Mehefin. Cofiwch gysylltu os hoffech gael mwy o wybodaeth.

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun, Ebrill yr 11eg croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Carol O'Donnell. Cafodd y fraint hon am mai ei nith Non Rhys oedd ein siaradwraig wadd. Eglurodd Carol bod gan Non ddiddordeb mawr mewn blodau a phlanhigion ers yn ifanc iawn ac wedi etifeddu'r doniau a'r diddordeb o ddwy ochr y teulu.



Ganwyd Non yng Nghaerdydd ond cafodd ei haddysg yng Nghwm Gwili, Ysgol Maesyryrfa a Phrifysgol Aberystwyth.

Hyfryd a heintus oedd brwdfrydedd Non yn trafod yr hyn a ellir ei wneud o'r amrywiol blanhigion sy'n ein gerddi neu'n tyfu'n wyllt o amgylch y ddinas. Mae blasau unigryw gyda phob un, ac mae'n rhyfeddol yr amrywiaeth y gellir ei wneud drwy ddefnyddio'r planhigion cyffredin hyn, a'r hwyl a geir drwy fforio a chrwydro i gasglu. Eglurodd y gwahaniaeth rhwng y planhigion sy'n fwytadwy, yn anfwytadwy a'r gwenwynig. Soniodd hefyd am y defnydd meddygyniaethol sy'n bosibl. Yn amlwg roedd Non yn deall ei maes i'r dim ac wedi sefydlu busnes bach gan ymweld â sawl Ffair Fwyd i werthu ei chynnyrch. Gellir defnyddio'r blasau amrywiol fel ychwanegiadau i fwydydd neu ddiodydd.

Gwych o beth oedd clywed Non yn trafod enwau'r holl blanhigion yn y Gymraeg a hynny mor naturiol a graenus.

Cafwyd y cyfle i flasu ychydig o'r cynnyrch ar ddiwedd y noson. Diolchwyd i Non ar ein rhan gan ein cadeirydd Shirley Williams gan atgoffa pawb am y cyfarfod nesaf ar y dyddiad arferol sef y trydydd nos Lun o'r mis, Mai yr 16eg. Bydd Dean Powell yn sôn am 'Hanes Llantrisant.' Yna ar Fehefin yr 20fed bydd Vaughan Roderick o'r BBC yn sgwrsio.

# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



1. Rydym yn argymell bod unigolion hunangyflogedig yn gwirio eu cofnod Yswiriant Gwladol (YG) i sicrhau bod eu cofnod yn adlewyrchu'r taliadau YG a wnaed drwy eu ffurflenni treth. Mae nifer wedi darganfod camgymeriadau yn eu cofnod pan yn ymddeol, ond erbyn hynny mae'n rhy hwyr i'w gywiro a gall hyn arwain at bensiwn gwladol is na'r disgwyl pan yn ymddeol.

   Os ydych yn darganfod anghysondebau yn eich cofnod, cysylltwch â'ch cyfrifydd. I wirio eich cofnod YG, ewch i: https://www.gov.uk/gwirio-cofnod-yswiriant-gwladol

2. Mae nifer wedi dioddef sgamiau 'dynwared' yn ddiweddar lle mae twyllwyr yn honni mai nhw yw eich banc ac yn eich hysbysu bod yna 'broblem' gyda'ch cyfrif. Maent yn eich hysbysu, am resymau diogelwch, y dylid trosglwyddo arian i gyfrif gwahanol, neu maent yn eich twyllo i rannu cyfrineiriau neu wybodaeth bersonol.

   Gall y sgamwyr hyd yn oed wneud iddi ymddangos eu bod yn ffonio o'r un rhif â'ch banc. Ni fydd eich banc go iawn byth yn gofyn i chi symud arian i gyfrif arall felly os ydych yn ansicr a ydynt yn sgamwyr, rhowch y ffôn i lawr!

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy: huwaledaccounts.com neu 029 20694525*

***Cwestiynau Huw ac Aled:*** Dwi wedi darllen ar-lein bod llawer o enwogion wedi lleihau eu treth etifeddiaeth trwy ddefnyddio amryw o gynlluniau. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am y gwahanol opsiynau sydd ar gael? (*Rydym yn barod wedi trafod buddsoddiadau treth-effeithiol, Gweithred Amrywio a bwlch treth 'Ronnie Corbett'.*)

Pan fu farw Bruce Forsyth gadawodd ei holl ystâd o £11,500,000 i'w drydedd wraig, gan hawlio eithriad llawn o dreth etifeddiaeth. Fodd bynnag, er ei fod yn osgoi treth etifeddiaeth i ddechrau, nid oedd ei ewyllys syml yn datrys pob problem.

- Gadawyd y cyfrifoldeb o gynllunio/dosbarthu'r ystâd i'w wraig. Gall swm sylweddol o dreth etifeddiaeth fod yn daladwy pan fydd y wraig yn marw.

- Ni dderbyniodd y 6 plentyn o'i 3 priodas unrhyw swm yn yr ewyllys gan y byddai unrhyw roddion a oedd yn gyfanswm o fwy na £325,000 yn destun treth etifeddiaeth o 40%. Tra bod Mr Forsyth efallai wedi cytuno ar lafar y byddai ei wraig wedyn yn trosglwyddo rhai asedau i'r plant doedd dim sicrwydd y byddai hynny'n digwydd. Gallai hi wrthod/ailbriodi/marw heb ewyllys.

- Mae dosbarthu asedau ar gyfer teuluoedd tebyg yn fater anodd a gall achosi tensiynau mawr o fewn teuluoedd. Cynlluniwch eich ewyllys yn ofalus ac os yn bosibl, ceisiwch egluro i'ch anwyliaid eich dymuniadau a'ch rhesymeg.

## Y DIGWYDDIADUR

### Mai

**Gwener, 6 Mai**

Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Richard Wyn Jones ar y testun 'Pam y mae Llafur yn ennill eto ac eto ac eto yng Nghymru? Deall canrif o lwyddiant etholiadol.' Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Os *nad* ydych yn aelod, gellwch sicrhau'r ddolen Zoom (£3) ar gyfer y cyfarfod hwn drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd: Gwynn Matthews (ebost: m.g.derwendeg@gmail.com; ffôn: 029-2089-1802).

**Sadwrn, 14 Mai**

Datganiad Organ gan Iestyn Evans yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm.

**Llun, 16 Mai**

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Dean Powell ar y testun 'Hanes Llantrisant', yng nghapel Bethel, Rhiwbeina, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Iau, 26 Mai**

Menter Caerdydd. Sgwrs gan Sara Huws o Lyfrgell Prifysgol Caerdydd ar y testun 'Trysorau Cudd yr Hen Lyfrgell – Llyfrau Prin Caerdydd'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 27 Mai**

Y canwr gwerin, Gwilym Bowen Rhys, yn perfformio yn Y Parlwr, Kings Road Yard, Pontcanna, CF24 2ET, am 7.30pm. Yn gwmni iddo, bydd y chwaraewr ffidil, Patrick Rimes, a'r delynores, Gwen Màiri.

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. JamesEW@caerdydd.ac.uk 16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ 029 20628754**

# Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg




**Pencampwyr Cymru!**

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi blwyddyn 8 Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am eu llwyddiant fel Pencampwyr Cymru yng nghystadleuaeth rygbi 'Cwpan Cymru' yn ddiweddar.

Ar y pumed ar hugain o Ebrill, chwaraeodd y tîm yn stadiwm ein tîm cenedlaethol, Stadiwm y Principality, yn erbyn Ysgol Penweddig. Er mwyn cyrraedd fan hyn, roeddent wedi llwyddo i drechu sawl tîm ar hyd a lled Cymru er mwyn cyrraedd y rownd derfynol. Mr Rhys Beynon, athro Addysg Gorfforol yr ysgol fu'n gyfrifol am eu hyfforddi. Y capten ar y dydd oedd Ffredi Easterby, gyda'i dad, Simon Easterby wrth law i gynnig cyngor i'r tîm.

Dywedodd Mr Rhys Angell-Jones, Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, "Roedd hwn yn brofiad bythgofiadwy i'r disgyblion disglair hyn – ac i ni i gyd fel cymuned yr ysgol a oedd yn eu cefnogi. Rydym oll mor falch o'r disgyblion, nid yn unig am eu sgiliau rygbi ond hefyd, yn y modd y cynrychiolodd y tîm ein gwerthoedd a'n safonau tra'n perfformio ar lwyfan rhyngwladol. Llongyfarchiadau mawr iddynt!"

**Hoci!**

Nid dim ond chwaraewyr rygbi a fagir yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg! Llwyddodd tîm hoci bechgyn o dan 12 yr ysgol i gyrraedd rownd derfynol Cymru. Teithiodd y tîm i'r Drenewydd wedi iddynt ddod yn bencampwyr De Cymru, gan lwyddo i ennill y fedal efydd yn y rownd derfynol. Gwych!

**Codi arian wrth godi gwên**

Er mwyn codi arian a chasglu nwyddau ar gyfer ffoaduriaid yn Wcráin, trefnodd bwyllgor elusennol Chweched Dosbarth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddiwrnod llawn gweithgareddau di-ri. Diddanwyd y disgyblion gan aelodau'r Chweched, wrth i'r ysgol lwyddo i godi £2,400 o bunnoedd a sawl ymweliad â chanolfan apêl Wcráin yn y Barri er mwyn cefnogi eraill. Da iawn bawb.

**Llwyddiant Eisteddfodol**

Wrth i fis Mai brysur gyrraedd, roedd hi'n adeg unwaith eto ar gyfer yr Eisteddfodau Sir – a braf cael cyfle i ddisgyblion berfformio unwaith eto. Cystadlodd sawl un o'r ysgol, yn unigol ac yn dorfol gyda sawl un wedi ennill eu lle yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych. Pob dymuniad da iddynt gyda'r paratoadau yn ystod y mis nesaf.

## Y DIGWYDDIADUR

**Mehefin**

**Mercher, 8 Mehefin**
Merched y Wawr, Bro Radur. Ymweliad prynhawn â Llys Llywelyn yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029-2061-5243).

**Sadwrn, 11 Mehefin**
Y band gwerin-bop 'Plu' yn perfformio yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd, CF10 4PT, am 7.30pm.

**Sadwrn–Sul, 18–19 Mehefin**
TAFWYL: https://tafwyl.org/

**Llun, 20 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Vaughan Roderick o'r BBC, yng nghapel Bethel, Rhiwbeina, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Llun, 27 Mehefin**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Jonathan Morris o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ar y testun 'Llunio prawf darllen i blant ysgolion Cymraeg: profiadau a chanlyniadau'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James. Manylion ar dud. 2**

## Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd*

Cynhelir cyfarfod blynyddol *Y Dinesydd* eleni ar nos Iau, 9 Mehefin am 7 o'r gloch ar Zoom.

Dyma gylfe gwych i chi ddysgu mwy am ein papur bro, a'i hynt a'i helynt dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd cyfle hefyd i chi allu mynegi eich barn am gynnwys a diwyg y papur, cynnig syniadau ynglyn â sut y gallwn ei wella a'i wneud yn fwy cynhwysol. Bydd cyfle hefyd i godi unrhyw fater arall yn ymwneud â'r papur.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r cyfarfod.

I gael y linc e-bostiwch eirianagwilym@gmail.com

# Ysgol Plasmawr

### Ymddeoliad Ms Sian Elin Griffith

Mae Sian Elin Griffith wedi ymddeol ar ddiwedd tymor y gwanwyn. Mae Sian-Elin wedi gwasanaethu'r ysgol yn ffyddlon ac yn ddiwyd am dros 20 mlynedd ac mae ei chyfraniad wedi bod yn un aruthrol i dwf a llwyddiant yr ysgol. Bu'n aelod gwerthfawr o'r adran fathemateg; bu'n aelod allweddol o dîm lles a chynnydd yr ysgol ac yn arweinydd strategol ar dîm arwain yr ysgol am gyfnod hir. Bydd llawer o ddisgyblion a rhieni yn cofio gyda balchder a phleser ei chyfraniad gwerthfawr i weithgareddau allygyrsiol yr ysgol yn cynnwys ymysg llawer; gweithgareddau'r Gymdeithas Rhieni a Staff; y clwb rhwyfo; alldeithiau Dug Caeredin a'n partneriaeth llwyddiannus gyda Sakai City yn Japan. Dymunwn yn dda i Sian-Elin yn ei hymddeoliad a diolch enfawr iddi am ei hymroddiad llwyr ac angerdd at yr ysgol.



"Mae wedi bod yn bleser llwyr i weithio yn y Plas dros yr ugain mlynedd diwethaf. Diolch am y cyfleoedd di-ri, y cwmni da a'r profiadau eang. Diolch yn fawr i'r holl staff am bob cefnogaeth a chyfeillgarwch dros yr holl flynyddoedd".

## Rygbi Ysgolion Caerdydd

Dau hen elyn a gyfarfu yn rownd derfynol tarian Dewar i dimau rygbi bechgyn dan 15 oed eleni yn Stadiwm y Principality — ysgolion Caerdydd ac ysgolion y Rhondda. Bechgyn ysgolion Caerdydd a orfu o 20 pwynt i 8. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Roedd nifer o fechgyn Glantaf yn y garfan — gweler llun ar y clawr.




# Aelwyd Hamdden

Ein gŵr gwadd ddechrau Ebrill oedd y Parchedig Gwilym Wyn Roberts, cyn-weinidog ac athro Mathemateg. Rhoddodd hanes arwr iddo sef y dyfeisiwr a'r peiriannydd Eidalaidd Guglielmo Marconi a'i gysylltiad â Larnog rhwng Penarth a'r Barri, ac Ynys Echni. Er ei gysylltiad â Chymru, ychydig o gydnabyddiaeth sydd iddo yma yn anffodus. Wedi gwneud profion ar wastadedd Caersallog trosglwyddodd a derbyn y signalau cyntaf erioed dros ddŵr, rhwng Ynys Echni a Larnog yn 1897. Y negeseuon cyntaf oedd "Ydych chi'n barod" ac "Ydych yn fy nghlywed" a'r ateb oedd "Ie, yn uchel a chlir". Ymhen amser defnyddiwyd dyfais arloesol Marconi i greu systemau tonfeddi radio ar gyfer llongau ledled y byd. Yn wir fe'i defnyddiwyd adeg suddo'r "*Titanic*" a'r "*Lusitania*". Mae cofeb fach iddo yn Eglwys Sant Lawrens, Larnog (sydd wedi cau).





Ar Ebrill 22, Wynne Melville Jones, Llanfihangel Genau'r Glyn oedd yn annerch ar y testun "Syniad neu Ddau". Cafodd ei eni a'i fagu yn ardal Tregaron. Graddiodd mewn Celf cyn dechrau ei yrfa fel Trefnydd Urdd Gobaith Cymru. Ffurfiodd gwmni cyfathrebu Strata Matrix. Adroddodd hanes effaith yr Arwisgiad ar yr Urdd yn 1969 a ffurfio Comisiwn i'r Mudiad. Fe'i penodwyd i gynorthwyo i godi ysbryd a phroffil yr Urdd, a chodi arian er mwyn sicrhau dyfodol llwyddiannus i blant Cymru. Crëwyd tegan meddal poblogaidd Mistar Urdd, fydd yn fasgot i dîm Cymru yn Chwaraeon y Gymanwlad eleni. Drwy ei yrfa mae wedi parhau â'i grefft fel arlunydd. Ymhlith ei weithiau mae darlun o Soar y Mynydd (sydd yn meddiant y cyn-Arlywydd Jimmy Carter), mur "Cofiwch Dryweryn" ger Llanrhystud, Eglwys y Mwnt, Croes ger Cadeirlan Llandaf, Castell Coch, Cors Caron, a'i hoff aderyn y Barcud Coch. Bu'n fraint i dreiddio i gelfyddyd Wyn Mel, un o arlunwyr amlycaf Cymru. Gobeithio y gwelir rhagor o'i luniau rhagorol yn Eisteddfod Tregaron ym mis Awst!

Yn ystod mis Ebrill collwyd un o aelodau ffyddlonaf yr Aelwyd, sef yr annwyl Idwal Hughes. Un o aelodau gwreiddiol yr Aelwyd ddechrau'r 90au, cyflawnodd bob swydd gydag arddeliad a gweledigaeth gadarn. Bu'n gyfrifol am y cwis blynyddol poblogaidd ac, yng nghwmni ei briod annwyl Mair, sicrhau llwyddiant yr Aelwyd ar bob agwedd. Coffa da amdano a chydymdeimlad dwysaf â Mair, y merched a'r teulu.

Ar fore Mercher, Mai 18fed am 10.30 y.b., byddwn yn ail-ddechrau cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina:- Siaradwr - Geraint Cynan. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd!

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Bwrlwm yn y Barri: D. Arthen Evans ym Mhwerdy'r Gymraeg** (Rhan 2)

Fel y nodwyd y tro diwethaf, tyfodd y Barri fel madarchen yn niwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, yn dilyn agor y dociau yno. Saethodd y boblogaeth o tua 500 yn 1880 i tua 35,000 erbyn 1913, y flwyddyn y daeth hi'n borthladd fwyaf y byd ar gyfer allforio glo. Allforiwyd dros 11 miliwn tunnell o lo o borthladd y Barri y flwyddyn honno.



Gwynfor Evans yn 1951
Llun: Wikipedia

Tref gosmopolitaidd iawn oedd y Barri erbyn hynny, a phobl yn heidio yno o bob cyfeiriad. Saesneg oedd y *lingua franca*. Roedd y siaradwyr Cymraeg ond yn rhyw 12% o'r boblogaeth yn 1913; ac fel y nodwyd y tro diwethaf, ychydig oedd y siaradwyr Cymraeg yn y dref newydd fyrlymus honno a drosglwyddai'r iaith i'w plant, er gwaethaf anogaethau taer gwladgarwyr Cymreig pybyr fel y Parch. Ben Evans (1854–1918), gweinidog y Taberacl, un o gapeli Cymraeg cryfaf y Barri.

'Diflanasai'r iaith yn y Barri yn gynt nag y gwnaeth ymhlith Cymry America!', meddai Gwynfor Evans (1912–2005), Llywydd Plaid Cymru rhwng 1945 ac 1981 ac wŷr i'r Parch. Ben Evans, am y Gymraeg yng nghyfnod ei fagwraeth ef yn y dref; ac fel yr eglurwyd y tro diwethaf, roedd Gwynfor ei hun yn enghraifft o'r methiant i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth iau. Prin eithriadol oedd ei afael ar y Gymraeg nes iddo fynd ati i'w meistroli wedi iddo gael 'tröedigaeth' at Gymru a'r Gymraeg yn 1929, ac yntau'n 17 mlwydd oed.

Roedd y cyfnod o dwf mawr yn hanes y Barri rhwng yr 1880au a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn cyd-fynd â chyfnod o newid ieithyddol mawr yn nhrefi diwydiannol cymoedd dwyrain Morgannwg. Gwelwyd y Saesneg yn mynd ar gynnydd sylweddol ynddynt a llawer o'u trigolion, fel rhai'r Barri, yn peidio â throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Ond y gwahaniaeth rhyngddynt â'r Barri oedd mai trefi diwydiannol Cymraeg yn ymseisnigo oedd mannau fel Aberdâr a Merthyr, tra mai tref Saesneg ei hiaith, yn bennaf, oedd y Barri o'i dechreuadau diwydiannol.

Peth cyffredin yw gweld haneswyr yn pwysleisio 'Seisnigrwydd' cynhenid y Barri diwydiannol o'i chymharu â threfi Blaenau Morgannwg. Yn wir, dywed Gwynfor Evans ei hun am Farri ei fachgendod: 'Yn y cymoedd a thua'r gogledd a'r gorllewin y trigai "the Welsh" yn ôl meddylfryd pobl y dref.' O'r ochr arall, peth digon prin yw gweld haneswyr yn rhoi'r sylw dyladwy i'r hyn a alwodd Gwynfor Evans yn 'fath ar drefedigaeth o Gymry Cymraeg' a fodolai yn y Barri yn ystod ei fagwraeth yno – 'trefedigaeth' a oedd, er yn fach o ran canran poblogaeth y dref, yn eithaf sylweddol o ran nifer; roedd tua 3,500 o siaradwyr Cymraeg yn y Barri adeg geni Gwynfor Evans. A phrinnach eto, hyd y gwelaf, yw'r sylweddoliad ymhlith haneswyr fod y 'drefedigaeth' Gymraeg honno'n un bwysig a dylanwadol, nid yn unig yn nhre'r Barri ei hun ond yn genedlaethol.

Yn hynny o beth, er y gwahaniaethau amlwg rhyngddynt, mae tebygrwydd mewn rhai ffyrdd rhwng y 'drefedigaeth' honno yn y Barri a'r gymuned Gymraeg a fodolai mewn porthladd arall, sef Lerpwl, tua'r un cyfnod yn fras. Er bod y siaradwyr Cymraeg yn y ddwy borthladd yn ganran fach o'r boblogaeth gyfan, yr hyn a oedd yn wir am y ddwy sefyllfa fel ei gilydd oedd eu bod yn enghreifftiau o gydgyfarfyddiad rhwng yr iaith Gymraeg a llewyrch economaidd, ac o gydfodolaeth nifer arwyddocaol o siaradwyr Cymraeg 'dosbarth canol' a 'phroffesiynol' mewn cyd-destun trefol, a'u dylanwad yn cyrraedd ymhell y tu hwnt i ffiniau'r porthladdoedd hynny.

Mae cymunedau o'r fath yn dir ffrwythlon ar gyfer meithrin ymwybyddiaeth o hunaniaeth ethnig. Fel y pwysleisiodd R. Merfyn Jones yn y gyfrol *Cymry Lerpwl a'u Crefydd* (1984), ceir digon o enghreifftiau yn achos lleiafrifoedd ethnig ar draws cyfandir Ewrop o le allweddol 'y dosbarth canol' yn y broses o lunio 'ideoleg genedlaethol'. Ffactor bwysig arall, meddai am Lerpwl, oedd y ffaith mai'r hyn a unai'r mewnfudwyr Cymreig yno oedd nid ymlyniad 'plwyfol' wrth fro ond eu hunaniaeth Gymreig. A gellid dweud yn debyg am y Cymry hynny a dyrrai i'r Barri o bob rhan o'r wlad.

Mae'n drawiadol, yn wir, fod dau o ffigurau amlycaf y mudiad cenedlaethol Cymreig yn yr 20fed ganrif, sef Saunders Lewis a Gwynfor Evans, y naill wedi ei fagu yn Lerpwl a'r llall yn y Barri. Ac er mor wahanol oedd Saunders Lewis a Gwynfor Evans ar lawer cyfrif, mae cymariaethau diddorol rhyngddynt – y ddau yn perthyn i'r 'dosbarth canol' mewn cymunedau Cymraeg a Chymreig lleiafrifol a chapelyddol mewn cyd-destun 'cosmopolitaidd', a'r ddau yn llugoer tuag at y Gymraeg, a dweud y lleiaf, nes iddynt ill dau gael 'tröedigaeth' yn ddynion ifainc at Gymreictod a'r Gymraeg.

Dros y cenedlaethau, bu'r Barri'n gartref i lawer o siaradwyr Cymraeg a ddaeth yn ddylanwadol nid yn unig ym mywyd y dref ond yn genedlaethol. Nid oes raid ond troi at y bennod ar y Barri yn llyfr Aneirin Talfan Davies, *Crwydro Bro Morgannwg: Cyfrol 1* (1972), i weld crybwyll yno enwau nifer dda ohonynt. Yn wir, bu Aneirin Talfan ei hun yn byw yn y Barri am rai blynyddoedd, a chafodd ei wraig, Mari, ei geni yno

yn 1912 (yr un flwyddyn â Gwynfor Evans). Cyflwynodd Aneirin Talfan ei gyfrol ar grwydro Bro Morgannwg er cof amdani hi 'a'i rheini George ac Abigail Evans a'i cododd yn Gymraes yn y Barri'. Yr oedd hi, felly, yn un o'r lleiafrif o blant y dref y trosglwyddwyd y Gymraeg iddynt yn y cyfnod hwnnw. Deuai ei rhieni o gyffiniau tref Aberteifi, a dywed Aneirin Talfan am Gymraeg ei wraig, fod 'parabl seinber Sir Benfro yn gymysg ag acenion Morgannwg ar ei gwefusau'.

Fe ellid llunio cyfres hir o erthyglau am bobl a fu'n byw yn y Barri dros y cenedlaethau ac i lawr at ein dyddiau ni, a gyfrannodd yn sylweddol i'r bywyd Cymraeg a Chymreig yn lleol ac yn genedlaethol. Ond mae lle i ddadlau fod y Barri yn bwerdy i'r Gymraeg ac i'r mudiad cenedlaethol mewn ffordd nodedig iawn yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif. A'r un a fu'n gyfrifol am hynny yn fwy na neb oedd D. Arthen Evans (1878–1936).

Ffigur anghofiedig i raddau helaeth yw Arthen Evans erbyn heddiw. Nid oes cofnod arno yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*, er enghraifft. Ond gellid dadlau iddo wneud cyfraniad gyda'r pwysicaf yn ei ddydd tuag at hybu'r Gymraeg a Chymreictod. Meddai William George (brawd David Lloyd George) am Arthen yn ei gyfrol *Atgof a Myfyr* (1948): 'Cymeriad unplyg ydoedd a'i galon ar dân dros Gymru a'r Iaith Gymraeg.'

Cadarnheir hynny gan Gwynfor Evans mewn sylw ganddo a ddyfynnais y tro diwethaf. Nes ei fod yn ddeuddeng mlwydd oed, trigai Gwynfor yn rhif 24 Somerset Road yn y Barri. Cafodd yr heol honno ei henw oherwydd y golygfeydd o Wlad yr Haf a welir oddi yno ar draws Môr Hafren. Ond mae rhywbeth eironig, braidd, yn y ffaith fod 'Somerset' yn enw ar heol y mae lle cryf i ddadlau mai hi yw un o'r heolydd pwysicaf yn hanes y Gymraeg a Chymreictod yn yr 20fed ganrif, a hynny nid yn unig am mai dyna fan geni Gwynfor Evans, ond hefyd am fod Arthen Evans yn byw yno o 1912 ymlaen, yn rhif 15; ac fe ddywed Gwynfor y byddai, oherwydd ei anallu yn y Gymraeg, yn ffoi o weld ei gymydog yn y pellter, am fod Arthen yn mynnu 'siarad Cymraeg ar bob achlysur posibl'.

Fel yr awgryma ei enw canol, ganed David Arthen Evans yn 'College Bach', Glynarthen, ym mhlwyf Penbryn yng ngodre Ceredigion, ar 23 Ionawr 1878, yn un o naw o blant. Aeth i'r Coleg Normal ym Mangor yn 1896. Oddi yno, aeth yn athro am ddwy flynedd i Dreharris, cyn symud i'r Barri yn 1901, lle yr arhosodd yn athro yn Ysgol Parc Jenner yn Hannah Street tan ei farwolaeth yn 1936 yn 58 mlwydd oed.

O gofio am ei yrfa fel athro ac am ei frwdfrydedd dros y Gymraeg, nid yw'n annisgwyl gweld hybu'r Gymraeg ym myd addysg yn grwsâd gan Arthen ar hyd y blynyddoedd. Mor gynnar ag 1905, cawn adroddiad ganddo yn y cylchgrawn *Ysbryd yr Oes* am ei ymweliad ef a'r Parch. Ben Evans (tad-cu Gwynfor) i arsylwi ar ysgol yn Nowlais a oedd yn 'arwain Cymru' wrth ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan obeithio gallu elwa ar yr esiampl honno yng nghyd-destun y Barri, lle nad oedd 'sôn am ddysgu'r Gymraeg yn [yr] ysgolion elfennol'.

Y flwyddyn wedyn, 1906, gwelwn Arthen yn cydweithio eto â'r Parch. Ben Evans ac eraill i sefydlu cymdeithas Cymrodorion y Barri – cymdeithas sy'n parhau yn weithgar hyd heddiw. Arthen a etholwyd yn ysgrifennydd cyntaf Cymrodorion y Barri, gan ddod maes o law yn ysgrifennydd Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg, mudiad gyda'r pwysicaf yn y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Ac at hynny y trown y tro nesaf, os byw ac iach.

*(I'w barhau)*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 25ain Ebrill 2022 cawsom ni ddarlith arbennig o ddiddorol gan Megan Owen o Brifysgol Bangor ar 'Pwysigrwydd Dulliau Modelu Cyfrifiadurol ar Gyfer Systemau Amorffaidd'. Aeth Megan i Ysgolion Llanfechell a Syr Thomas Jones, Amlwch cyn cael cyfnodau ym Mhrifysgolion Caerdydd a Bangor lle cafodd radd cyntaf mewn Peirianneg Electronig ac mae hi nawr yn gwneud doethuriaeth gyda'r Sefydliad Dyfodol Niwclear ym Mangor.

Yn gyntaf eglurodd Megan mai defnydd amorffaidd yw y gwrthwyneb i ddefnydd crisial. Mewn crisial mae gan yr atomau neu folecylau drefn pendant a elwir yn ddellten (*lattice*). Nid oes trefn i'r cyfansoddion mewn defnydd amorffaidd. Y prif ddefnydd mae Megan wedi gweithio arno yw Sirconiwm Deuocsid ($ZrO_2$) sydd i'w gael mewn ffurf crisialog a elwir yn Zirconia a ffurf amorffaidd. Mae Sirconiwm yn cael ei ddefnyddio fel haen allanol i danwydd niwclear am ei fod yn gwrthsefyll cyrydiad (corrosion) ac nid yw yn atal niwtronau rhag pasio drwyddo. Pwrpas gwaith Megan yw astudio y ffordd mae ocisgen yn teithio drwy Sirconiwm Ocsid amorffaidd ac i weld sut mae hyn yn effeithio ar gyrydiad y rhodenni tanwydd, sydd o bwysigrwydd mawr i gadw adweithydd niwclear mor ddiogel ag sy'n bosib.

Mae Megan wedi ymosod ar y broblem yma mewn sawl ffordd wahanol trwy ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadur. Yn gyntaf cafodd y sylweddau eu modelu ar y cyfrifiadur fel pwyntiau bach yn ufuddhau i ddeddfau Newton, yna defnyddiwyd dull ystadegol o'r enw dull Monte Carlo i edrych ar y canlyniadau i wneud yn siŵr eu bod yn gyson gyda beth sy'n digwydd yn y byd go iawn. Hefyd defnyddiwyd rhaglen gyfrifiadur arall i fodelu y system trwy dulliau cwantwm. Daethpwyd i'r canlyniad bod trylediad Ocsigen yn gyflymach trwy sylwedd amorffaidd ac hefyd gall amhureddau fel Chromiwm gynyddu cyfradd y tryledíad. Mewn adran arall o'r Brifysgol mae grŵp arall yn gwneud arbrofion cemegol i gadarnhau y gwaith damcaniaethol a wnaethpwyd ar y cyfrifiadur. Gellir defnyddio y cyfrifiadur i fodelu effeithiau tymheredd a gwasgedd a fyddai yn rhy beryglus i'w creu yn y labordy, cam pwysig tuag at wneud adweithyddion niwclear mor ddiogel ac sy'n bosib.

*Rhys Morris*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Problem Hen Luniau

### Gwilym Dafydd

**Nid Mair Garnon…**

Tro diwethaf yn y golofn fisol hon ym mis Ebrill, dwedais i ychydig eiriau am fy modryb digon enwog yn ei dydd, draw yn Llandudoch a Sir Benfro ac yn y Gorllewin yn gyffredinol – y diweddar Mair Garnon James. Ron i wedi dod o hyd i hen lun priodas du a gwyn mewn cyflwr da. Does dim amheuaeth yn fy meddwl taw fy Nhaid, Parchg J Clement Davies, Castellnewydd Emlyn yw un o'r ddau yn y llun. Ond pwy oedd y fenyw yn y llun nesaf ato? Cymerais braidd yn ganiatoaol taw Modryb Mair oedd gydag ef ar ddiwrnod ei phriodas. 1959 felly ac mae Taid yn edrych o amgylch 63 oed yn y llun. Dwedais i wrth fy nghyfnither Meinir Garnon y baswn yn dweud gair am ei mam ar gyfer rhifyn mis Ebrill ac ebostiais y dudalen iddi. Daeth neges nôl gan Meinir yn dweud taw nid Mair Garnon sydd yn y llun!

Fel dywed Meinir, mae'r fenyw yn y llun yn edrych yn debyg i'w mam ond nid Mair yw hi. Pwy felly yw'r fenyw yn y llun? Mae'n edrych tua 30 oed ac os yw ar dir y byw mae hi'n tua 93 oed yn 2022! Nododd Meinir ei bod eisoes wedi dod o hyd i ddegau lawer o hen luniau yn yr hen gartref yn Bell View ac erbyn hyn does fawr o syniad pwy yw'r bobl yn yr hen luniau. Mae gen i hen luniau du a gwyn niferus o'r hen ddyddiau a hynny ddegawdau lawer yn ôl erbyn hyn o ardaloedd Castellnewydd Emlyn a Thresaith yn arbennig – heb sôn am luniau tebyg gan Eirian o'i theulu yn Lerpwl, Blaenau Ffestiniog ac Ynys Môn. Tybed a oes eraill ohonoch â phentwr o hen luniau a dych chi hefyd yn y niwl o safbwynt rhoi enwau i sawl un ohonynt wedi gwisgo yn wahanol iawn i ni y dyddiau hyn.




**Gofid y Covid**

Mae'n debyg bod sawl un arall wedi ei ddal yn ystod yr wythnosau diwethaf. Beth amdanoch chi tybed? Collais i nifer o gyfarfodydd a gweithgareddau cymdeithasol yn ystod hanner cyntaf mis Ebrill oherwydd…fe wyddoch pam – methu'r hen brawf yna! Mae Clwb Gwylio Adar gyda ni ar fore Sadwrn cyntaf o'r mis. Mae fy nyddiadur yn fy atgoffa am fethu'r prawf am 9.20 ar fore Sadwrn, 2 Ebrill ac roedd Eirian eisoes yn sâl ers rhai diwrnodau. Do'n i ddim yn teimlo'n sâl o gwbl, dim ond peswch bach iawn ond aeth neges i Fferm y Fforest i ddweud wrth y tri yno beth oedd natur yr amgylchiadau. Felly aeth Joan Rhiwbeina, Alun Llandaf a Mike Treganna am dro i wylio adar. Gobeithio cawn gwrdd ar fore Sadwrn, 7 Mai am hanner awr wedi deg…

**Amser Gwyliau**

Gobeithio bod rhai ohonoch wedi mwynhau seibiant o wyliau Pasg yng nghanol y mis. Diolch byth roedd Eirian a fi wedi gwella erbyn dydd Iau, 21 Ebrill a ffwrdd a ni i Cherwell Valley, am bum noson. Dyn ni wedi aros yno tua dwsin o weithau erbyn hyn a bob tro yn cael amser da. Mae'r lleoliad yn wych a'r tro hwn teithion ni mewn i'r Cotswolds pob bore. Aethon ni mewn i'r eglwys hynafol yn Stow ac fel mae eraill wedi nodi, mae'r tri gair Cymraeg dal yno yn y cyntedd megis tri gair mewn sawl iaith arall hefyd: CROESO, SYLLWCH, GWEDDIWCH.

---

## Nodyn gan Rob Evans sy'n cynhyrchu'r *Wennol* - misolyn i ddysgwyr Cymraeg

Beth nesaf? Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf? Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr gadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle cyhoeddus i gyfarfod a dyna chi. Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdanoch chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu. Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith yn fyw.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith. Byddech wedyn yn rhoi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi a rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd. Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol. Fy e-bost yw bobwennol@ntlworld.com

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Steffan Webb sy'n cloriannu tymor Clwb Pêl Droed Dinas Caerdydd 21-22

Mae pêl droed yng nghysgod Covid wedi bod yn brofiad. A dweud y gwir, dwi mond yn falch bod gyda ni glwb o hyd a bod cymaint o glybiau wedi goresgyn ar bob lefel er y gall fod mwy o broblemau i ddod gyda sôn o hyd bod Vincent Tan am werthu'r clwb. Mae'n anodd gweld dyfodol disglair tra bod toriadau mawr a cholli chwaraewyr allweddol sy'n costio gormod. Oes chwaraewyr ifanc talentog ar gael? Oes, a rhai sy'n siarad Cymraeg hefyd felly gwell i mi fod yn ofalus be dwi'n dweud. Ond mae 'na ddywediad enwog nad ydych yn mynd i ennill dim byd gyda phlant yn unig er tegwch iddyn nhw. Rhaid cyfaddef nad ydw i wedi bod nôl ers dechrau Covid gan ddibynnu ar deledu / radio a thechnoleg, fel mae lot o bobl, i ddilyn fy hoff dîm. Gyda chostau byw dwi'n ofni bydd llawer iawn mwy o bobl yn gorfod gwneud hyn ac felly bygythiad arall i'n tîm pêl droed.

Felly, be dyn ni wedi gweld? Roedd Mick McCarthy fel tad neu hyd yn oed tadcu i'r tîm, yn yr un modd â Neil Warnock, ac roedd y disgwyliadau yn uchel ar ddechrau'r tymor. Doedd y pythefnos cyntaf ddim yn ddrwg, gan ennill tair a dwy gêm yn gyfartal, ond daeth hynny i ben yn fuan iawn gan golli deg gêm allan o unarddeg. Chwarae teg doedd neb yn gallu byw gyda hynny. Penodwyd Steve Morrison, ar ddiwedd Hydref, a chafwyd ymateb cadarnhaol i'r rheolwr newydd. Diolch byth. Un gêm gyfartal yn erbyn Stoke i droi cornel ac wedyn ennill tair allan o bedair. Rhag ofn bo chi'n cofio am ddisgwyliadau'r tymor, roedd ein tymor drosodd erbyn hyn a phanic o hyd ein bod ni'n mynd i syrthio o'r Bencampwriaeth.

Pa obaith oedd gyda ni o hyd? Wel, rhywfaint o hunan barch a gorffen yn uwch nac Abertawe wrth gwrs. Buasai curo Bryste wedi bod yn neis ond dyna ni. Be ddigwyddodd oedd colli i Fryste ac Abertawe ddwywaith, cartre' ac oddi cartre', gan osod record buasai wedi bod yn well osgoi. Mae'n wir nad yw e ddim mor bwysig i ni ag yw e i'r ddau glwb arall ond beth am hunan barch? Balchder? Mae diffyg dealltwriaeth ac ymrwymiad rhai chwaraewyr a rheolwyr tu hwnt i ddealltwriaeth llawer o gefnogwyr.

Pa obaith sydd gyda ni nawr? Mae chwaraewyr ifanc da gyda ni. Ydy'r rheolwr yn mynd i chwarae nhw neu eu gwerthu nhw? Dwi ddim wedi maddau i Dave Jones am beidio â chwarae Aaron Ramsey yn Ffeinal Cwpan yr FA yn erbyn Portsmouth. Dwi'n siŵr basen ni wedi ennill yn lle colli o un gôl. Gawn ni weld, mae chwaraewyr ifanc da gyda ni felly mae gobaith. Ar y llaw arall efallai bydd clybiau eraill yn galw amdanyn nhw.

Mae gobaith hefyd gyda'r ffordd roedd Steve Morrison wedi gweithredu yn ystod ffenestr trosglwyddo mis Ionawr gan fenthyg nifer o chwaraewyr ifanc a phrofiadol wnaeth lwyddo i ail godi ysbryd a chanlyniadau'r tîm er i ni fod yn anghyson tu hwnt. Rhaid i ni gofio bod ein rheolwr yn eitha dibrofiad hefyd fel rhai o'n chwaraewyr. Bydd llawer o newidiadau yn yr haf. A gaiff y rheolwr yr un cyfle a Mick McCarthy? Os nad yw yn llwyddo bydd yn gorfod gadael cyn 'Dolig mae'n debyg.



## DATHLU'R 50

**Ym mis Ebrill 2023 fe fydd *Y Dinesydd* yn 50 mlwydd oed ac mae'r pwyllgor yn awyddus i ddathlu'r achlysur.**

**Byddwn yn sefyldu gweithgor fel y gallwn ddathlu'r digwyddiad yma. Os oes unrhyw un ohonoch chi'r darllenwyr am fod yn rhan o'r gweithgor cysylltwch â eirianagwilym@gmail.com**

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon / Ysgol Sul (10:30 a.m.):
Mis Mai 2022:
1 Mai – Oedfa Gymun - Delwyn Siôn
8 Mai – Oedfa Cymorth Cristnogol
15 Mai – Parchg Glyn Tudwal Jones
22 Mai – Arwel Ellis Owen
29 Mai - Parchg Dafydd Andrew Jones

Wythnos wedi'r Pasg, ar Ebrill y 24ain, bu Côr y Capel, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths, ynghyd a'r unawdwyr gwadd Fflur Davies a Rhodri Prys Jones, a chymwynaswyr eraill, yn cyflwyno *Teilwng yw'r Oen*.

Cyfaddasiad roc o waith Georg Friedrich Handel ydi *Teilwng yw'r Oen*, a threfniant Rhys Taylor o waith Tom Parker a ddefnyddiwyd.

Cyfansoddwyd y gwreiddiol yn 1741, gyda'r geiriau, yn adlewyrchu rhannau o'r Hen Destament a'r Testament Newydd, gan Charles Jennens.

Cyfansoddodd Handel y gerddoriaeth mewn 24 diwrnod, ac ar ddiwedd y sgript gerddorol cynhwyswyd y llythrennau "SDG" – "*Soli Deo Gloria*" – sef "I Dduw yn unig y bo'r gogoniant".

Yn Nulyn, ar y 13eg o Ebrill 1742, y'i perfformiwyd am y tro cyntaf, a hynny er budd tair elusen. 'Roedd 700 o bobl yn bresennol a chodwyd tua £400 tuag at fudiadau iechyd a dyled carcharorion.

Er budd elusen y cyflwynwyd y perfformiad ym Methlehem, Gwaelod-y-garth hefyd, ac ar Sul y Pasg yng nghalendr eglwysi Uniongred Dwyrain Ewrop, gan gynnwys Wcráin a Rwsia, y gwnaethpwyd hynny.

Er i'r nifer a fynychodd fod yn sylweddol lai na'r dorf yn y cyngerdd gwreiddiol, fe lwyddwyd i gasglu £1,000 tuag at Apel DEC Wcráin.

A gwnaethpwyd hynny ym mhresenoldeb teulu o ffoaduriaid (mam a'i merch) o Wcráin sydd wedi cael lloches gan Sara Ellis Owen ym Mryste.

Er sicrhau eu dychweliad saff i'w gwlad ac at eu teulu, ac mewn cydymdeimlad llwyr a'r miliynau o ffoaduriaid eraill ymhob rhan o'n byd cythryblus, deisyfwn ninnau i arweinwyr y cenhedloedd, yng nghyfnod y Pasg o ryfela yma, glywed cri'r bobl – "hedd yn awr".

## EGLWYS DEWI SANT

**Uppsala, Sweden**

Ar ddechrau mis Ebrill bu Dyfrig, ein Ficer, ar ymweliad ag Uppsala yn Sweden, yn un o bedwar o gynrychiolwyr Esgobaeth Llandaf sydd wedi'i gefeillio ag Esgobaeth Uppsala ers pymtheng mlynedd.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Tomos a Kim Davies ar enedigaeth eu merch, Ela Mai, wyres i Alun ac Eirith Davies. Dymunwn bob bendith i'r teulu.

**Coffi a Chlonc**

Ni fu Coffi a Chlonc yn ystod mis Ebrill oherwydd Y Pasg ond fe fydd yr un nesa' fore dydd Sadwrn yr 21ain o Fai, o 10:30 tan 12:00 ac yn rhithiol unwaith eto.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Unwaith eto, casglwyd llawer o nwyddau tros gyfnod Y Garawys ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd.

**Gweddi tros Wcráin**

Ar y Sul cyntaf yn Ebrill, mewn gweithred o dystiolaeth a ffydd, ymunodd eglwys Dewi Sant ag Eglwysi Ynghyd Y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon mewn gweddi tros Wcráin.

**Yr Wythnos Fawr**

Dydd Sul y 10fed o Ebrill oedd Sul y Blodau neu Sul Y Palmwydd a dechrau'r Wythnos Fawr, sef wythnos ola'r Garawys pan mae'r eglwys yn cofio ac yn dilyn taith Crist o lawenydd Jeriwsalem i dristwch Dydd Gwener Y Groglith.

Ar y nos Iau, sef Dydd Iau Cablyd, roedd y gwasanaeth hwyrol yn yr eglwys yn coffáu Crist yn golchi traed ei ddisgyblion ac yn sefydlu Swper yr Arglwydd – Y Cymun Bendigaid neu'r Offeren.

Trannoeth, cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gwener Y Groglith gan Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd, yn eglwys Dewi Sant. Y Parchedig Catrin Roberts fu'n pregethu.

**Y Festri Basg**

Ar ôl y gwasanaeth 10:30 fore Sul olaf Ebrill, sef Y Pasg Bach, cynhaliwyd Y Festri Basg sef cyfarfod blynyddol yr eglwys a dosbarthu'r Adroddiad Blynyddol a rhifyn Pasg cylchgrawn eglwys Dewi Sant, Cloch Dewi.

Ailetholwyd Gwynn Matthews yn Warden y Bobol ac mae Wyn Mears yn parhau yn Warden Y Ficer.

**Gwasanaethau**

Fe fydd gwasanaeth yn yr eglwys bob dydd Sul am 10:30 a.m. ac am 6:00 p.m. a gwasanaeth am 8:00 a.m. ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis.


Gweinyddir y Cymun Bendigaid yn yr eglwys bob bore Mercher am 10:30 gyda phaned i ddilyn.

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn longyfarchiadau a chariad at Audrey a Ceri ar ddathliad arbennig iawn, trigain mlynedd ers eu priodas (diamwnt)!. Capel Moreia, Rhymni oedd lleoliad y briodas. Ebrill 21, 1962 y dyddiad. Roedd yn hyfryd cael cwmni'r ddau ym Methel ar Ebrill 24, er bod Ceri'n cydnabod bod rhaid gwneud ymdrech yn dilyn '*three-day event*' o ddathlu gyda'u plant ac wyrion a ffrindiau ac ar ddiwrnod arall mewn gwesty lleol gyda chyfeillion oedd wedi bod yn y briodas.

Hyfryd oedd cael arweiniad y Parchedig Hywel Wyn Richards, Penybont, ar Sul olaf Ebrill. Clywsom i gychwyn ddarllen o rai adnodau o Salm 51, gyda sylwadau ar sefyllfa druenus Wcráin. Seiliwyd y myfyrdod ar hanes Iesu yn y briodas yng Nghana (Ioan 2, 1-11). Bu canu emynau 220 a 313 yn ychwanegiad priodol.

Bu'n gweinidog yn ein tywys yn fyfyrgar ar weddill Suliau'r mis, yn nodedig ar Ebrill 10 a 17 – Sul y Blodau a Sul y Pasg. Cawsom oedfa ar y cyd gyda'n cyfeillion o'r Barri i nodi croeshoeliad Iesu – Gwener y Groglith. Fel arfer roedd Kevin wedi paratoi arddangosiad cain o'r Groes wag a oedd yn cyferbynnu'n galonogol â hagrwch y llun o dair croes Golgotha oedd ar y sgrin.



## EBENESER

**Llan Llanast**

Ar fore Sul, 3 Ebrill daeth criw da o tua 20 o blant i fwynhau a chael lot o hwyl gyda gemau, storïau a chanu.  Cafodd bob un fag anrheg yn cynnwys, ŵy Pasg.

**Colli aelod**

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth Idwal Hughes ar y 4 Ebrill yn 93 oed ar ôl cyfnod hir o salwch.  Bu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd cyn i salwch afael a'i gadw gartref. Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd i Mair a'r merched, Rhian ac Anwen, a'r teulu estynedig.

**Llongyfarchiadau...**

...i Peter Spriggs am ennill Gwobr Gŵyl Ddewi, Coleg Celf Abertawe, Prifysgol Cymru am gefnogi'r staff a myfyrwyr gyda'r Gymraeg.



**Rhedeg Marathon**

Ar 2 Ebrill, teithiodd un o'n pobl ifanc, Cai Hayes, a dau gyfaill iddo; Elis Jones a Henry Payne i Baris, i gystadlu yn y ras farathon blynyddol i godi arian i elusen 'Cardiac Risk in the Young'. Elusen sy'n codi ymwybyddiaeth o gyflwr calon pobl ifanc. Mae'r elusen yn hyrwyddo a datblygu rhaglenni sgrinio a gwaith ymchwil perthnasol. Roedd yn brofiad heriol a chofiadwy, yn enwedig i ddau ohonyn nhw oedd yn rhedeg eu marathon cyntaf. Codwyd dros £1,700 i'r elusen. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd.

**Gŵyl Gristnogol Llanw**

Aeth criw da o blith aelodau Ebeneser i fwynhau Llanw dros noson a diwrnod yn Aberystwyth. Y Parch. Stuart Bell oedd yn pregethu ar y nos Lun, Cynan Llwyd yn un o'r siaradwyr fore Mercher, a Jonathan Thomas yn pregethu gyda'r nos. Martin a Meilyr Geraint oedd yn arwain yr addoliad. Braf oedd gallu cynnal yr ŵyl ar ôl methu'r ddwy flynedd diwethaf oherwydd y pandemig.

**Angor**

Ail ddechreuodd cyfarfodydd Angor ar 24 Ebrill mewn lleoliad newydd sef Canolfan Reach, Grangetown. Bydd cyfarfodydd pob pythefnos am 4:30. Mae'r cyfarfodydd anffurfiol yn cynnwys gweithgaredd i'r plant.

**Llongyfarchiadau....**

...i Gwenda Lewis ar ddathlu'r 60 oed ar 24 Ebrill 2022. Gobeithio iddi gael diwrnod i'r brenin!

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar Sul cyntaf Ebrill cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parch. Robert Owen Griffiths.  Roedd y gwasansaeth cymun ar Sul y Blodau yng ngofal ein gweinidog y Parch. Evan Morgan. Ar Sul y Pasg roedd cyfle i ymuno â'r aelodau yn Salem, Treganna ac roedd y gwasanaeth hwn hefyd ar gael ar Zoom. I gloi'r mis cawsom gwmni Mr Gwyndaf Roberts.

Cynhaliwyd noson ym Methel dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar Ebrill 11 pan fu Non Rhys yn ein swyno gyda'i brwdfrydedd dros ddefnyddio planhigion gwyllt a blodau'r ardd ar gyfer ei bwyta. Mae Non yn nith i un o'n haelodau Carol O'Donnell.

Ar Fai 18 bydd aelodau Aelwyd Hamdden yn cynnal eu cyfarfod cyntaf ym Methel am 10.30 y bore.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym fel capel wedi cael y pleser o groesawu nifer o aelodau newydd i'n plith. Mae croeso cynnes i bawb i fynychu ein gwasanaethau bore Sul sy'n cychwyn am 10.15.

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Emyr Jenkins a'i gwmni am fod yn rhan o dîm a enilllodd enwebiad ar gyfer Oscar yng nghategori y ffilm fer. Yn anffodus ni fuon nhw'n llwyddiannus ond roedd ennill enwebaid yn gamp ynddo'i hun.

Ym mis Mawrth cawsom ddatganiad ar yr organ gan Jeff Howard. Yn ôl Huw Thomas, "o dynerwch *Poème* gan Fibach i rymuster cryf *Toccata* Cochereau, clywyd organ y Tabernacl ar ei gorau". Mae croeso cynnes i chi i ddod i'r datganiad nesaf – dydd Sadwrn Mai 14 a'r organydd gwadd fydd Iestyn Evans.

Yn dilyn ein penderfyniad i fuddsoddi mewn piano o'r radd flaenaf ar gyfer y capel, aed ati i drefnu cyfres o ddatganiadau amrywiol eu natur. Felly ar ddechrau mis Ebrill y canwr a phianydd amryddawn Huw Chiswell oedd wedi ein diddannu am noson gofiadwy.

Arfon Haines Davies ddaeth i'n difyrru yn ein Cymdeithas Nos Fawrth ddechrau mis Ebrill. Cawsom noson ddifyr iawn wrth iddo sôn am ei amrywiol brofiadau a'r cymeriadau diddorol a fu'n gwmni iddo dros y degawdau.

Ar Ddydd Llun olaf mis Ebrill daeth y Clwb Darllen at ei gilydd i drafod y llyfr '*Mori*' gan Ffion Dafis.

Cynhaliwyd gwasanaethau bob bore a nos Sul drwy'r mis. Mawr yw'n diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau gwerthfawr: Y bobl ifanc ar fore Sul cynta'r mis ac yna yn ystod y mis – Marc John Williams, aelodau a chyfeillion Pontcanna a Threganna, Noa Evans, y Parchg Lona Roberts, y Parchg Hywel Davies a'n darpar Weinidog y Parchg Ddr Rosa Hunt.

Yn dilyn  llwyddiant y sesiwn cyntaf o ganu emynau y tu allan i'r capel, aed ati i ganu bob bore Sul ym mis Ebrill. Casglwyd symiau da bob tro at achos Wcráin.  Y bwriad yw i ni barhau dros y cyfnod nesa.

## SALEM, TREGANNA

**Pob Lwc!**

Dymunwn yn dda i holl blant a phobl ifanc Salem fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni, ac i bawb fydd yn sefyll arholiadau yn ystod y tymor.

**Taith Gerdded - 13 Gorffennaf**

Mae Evan, ein gweinidog, yn ei rôl fel Llywydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn cerdded 70km ar gyfer apêl yr enwad sef 'Hadau Gobaith'. Mae hyn er mwyn helpu Kenya a'r problemau yno o ganlyniad i newid hinsawdd.  Ar nos Fercher, 13 Gorffennaf, bydd Evan yn cerdded o Salem am 6pm ar ei daith gerdded olaf, gan orffen gyda barbiciw am 7.30pm.  Dewch i ymuno ag Evan wrth iddo orffen ei daith!

**Grwpiau Salem**

Mae'r Clwb Coffi, y Clwb Brecwast i rieni a'u babanod a Chlwb y Bobl Ifanc i gyd yn cwrdd yn rheolaidd bellach. Croeso i chi ymuno! Am ddyddiadau ac amseroedd ar eu cyfer gallwch ddod o hyd i galendr y mis ar wefan capelsalem.org. Treuliodd Clwb y Bobl Ifanc noson ar y trampolîns yn '*Infinity*'.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Hazel ac Elgan, wedi i Hazel golli ei mam. Rydych yn ein meddyliau ar hyn o bryd.

## EGLWYS Y CRWYS

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Mrs Mair Latter. Mae'n cydymdeimlad yn ddiffuant gyda'i phriod Gerald a'r plant. Meddyliwn amdanynt yn eu profedigaeth.

Croeso cynnes i'r byd i Elis Joseph Hawa, mab bach cyntaf Faraz a Bethan Abulhawa ac ŵyr arall i Arthur a Diana Evans. Mae Rhys, Martha a Fflur yn falch iawn o'u cefnder newydd.

Dymunwn yn dda i'r nifer o'n haelodau sydd wedi cael eu taro gan Covid yn ddiweddar. Gwellhad buan i bawb.

Gan i'r Parch. Robert Owen Griffiths fod yn un o'r rhai anffodus i ddal Covid dros y Pasg, ni fu'n bosib iddo ymgymryd â'r Gwasanaeth fore'r Groglith. Roeddem yn hynod ddiolchgar i Mr William Tiplady am ddod i'r adwy a chafwyd gwasanaeth bendithiol dros ben.

Cynhaliwyd cyfarfod hynod ddiddorol gan y Gymdeithas yng nhwmni'r Dr Dylan Foster Evans ar y testun 'Y Gymraeg yn y dirwedd yng Nghaerdydd a'r Cyffiniau?'. Cawsom sawl enghraifft o englynion amrywiol sy'n ymddangos ar gerrig beddi. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Mentrodd aelodau 'Coffi ar Gamera' allan i'r byd mawr yn ystod mis Ebrill gyda bore dymunol iawn yng nghwmni ei gilydd dros baned yn Eglwys Ararat, Yr Eglwys Newydd. Braf oedd cael cwmni a sgwrs wyneb yn wyneb unwaith eto.

Byddwn yn croesawu y Gweinidog i wasanaethu ar y Sul cyntaf o Fehefin. Cawn gwmni y Parch. Denzil John ar Fehefin 12fed a'r Parchedigion Ifan a Catrin Roberts ar y 19eg. Ar y Sul olaf, y 26ain, gwasanaethir yn yr Oedfa Foreol gan y Parch. Aled Gwyn ac yn yr Oedfa Hwyrol gan Mr Marc Jon Williams. Croeso cynnes i bawb.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minnystreet.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchg Owain Llŷr Evans

Yn sgil y cyhoeddiad ddiwedd mis Mawrth gan y Llywodraeth yn dileu mwyafrif y cyfyngiadau cyfreithiol a ddaeth i rym yn sgil Covid-19, mae Eglwys Minny Street yn dechrau symud ymlaen yn ofalus. Wrth wneud, bydd yr eglwys yn tanlinellu argymhellion y Llywodraeth, sef bod pawb (oni bai eu bod wedi'u heithrio) yn parhau i wisgo gorchudd wyneb dan do, yn diheintio ac yn ystyried aelodau eraill. Bydd y cyfle i ymuno ag un oedfa bob Sul drwy gyfrwng *Zoom* yn parhau. Yn yr un modd, bydd cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn y festri, hefyd ar gael o hyd drwy *Zoom.*

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 1, 8 ac 15 Mai (ac eithrio nos Sul, 8 Mai pan fydd gwahoddiad i ymuno yng Ngŵyl Bregethu Eglwys y Crwys). Cynhelir oedfa gymun nos Sul, 1 Mai. Bydd oedfa 8 Mai yn oedfa gynnar (9:30) a byddwn yn croesawu cyfeillion i arwain yr addoliad yn oedfaon 22 a 29 Mai. Yn ystod oedfaon 1, 15, 22 a 29 y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

**Gweithgarwch y mis**

Cynhelir cyfarfodydd MATH yn y festri ac ar *Zoom* fore Mercher, 11 Mai a 25 Mai a bydd cyfle i nodi a chefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol yn ystod y mis. Bydd PIMS yn cyfarfod am 19:00 nos Fawrth, 10 Mai ac eto nos Lun, 23 Mai.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am John Gilbert Evans (Penarth). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i briod, Marian, eu mab, Rhodri, ac â'r teulu ehangach a chyfeillion.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Daeth y gwanwyn, a chyfle i gymdeithasu yn yr heulwen wrth i reolau Covid-19 gael eu llacio. Braf clywed bod aelodau'r gynulleidfa fuodd yn dioddef o'r haint yn ddiweddar nawr wedi gwella.

Daeth Y Pasg gyda'i wasanaethau gorfoleddus a'i Aleliwia llawen, a chawsom ddathlu'r Pasg Bach gyda'n gilydd yn Eglwys Teilo Sant.

Ddydd Sadwrn 23 Ebrill, daeth cyfle i deithio i Lanbadarn Fawr i goffáu Padarn Sant, a gyrhaeddodd dir Ceredigion yn y chweched ganrif. Bum mlynedd yn ôl, cafwyd dathliadau yn yr ardal i nodi pymtheg cant o flynyddoedd ers y digwyddiad, a chynhaliwyd Offeren Gatholig yn eglwys Llanbadarn Fawr fel rhan o'r ddathliadau. Daeth hon yn ddigwyddiad blynyddol tan y cyfnod clo, ac roedd mor braf cael cyfle i fod yno eto. Mae'n fraint clywed yr Offeren yn yr eglwys hynafol honno a chwrdd â chyfeillion Y Cylch Catholig sy'n teithio'n bell i fod yn bresennol. Roedd digon o sgwrsio yn y dafarn drws nesa wedyn, a phawb yn dala lan â'r hanesion dros y ddwy flynedd aeth heibio.

Yn ystod Offeren fawreddog yn Eglwys Iago Sant yn Llundain yn ddiweddar, darllenwyd neges gan y Pab Ffransis i'r gynulleidfa ac i Gatholigion Cymru. Gan ddwyn i gof dreftadaeth diwylliannol a chrefyddol Cymru, mynegodd y Pab ei anogaeth i'w phobl i ddysgu a siarad yr iaith ac i weddïo yn Gymraeg yn nhraddodiad seintiau fel Beuno, Gwenfrewi a Chadog. Roedd yn gyffrous iawn i aelodau'r gynulleidfa ac i'r rhai oedd yn gwrando dros y we i glywed cefnogaeth mor gadarn i ddefnydd yr iaith yn yr Eglwys Gatholig yng Nghymru.

Mai 1af: Offeren ar youtube, 4.30pm
Mai 29: Offeren Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd, 4.30pm. Croeso cynnes i bawb.
Mehefin 5: Offeren ar Zoom, 4.30pm
Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Dewi Alter ar ennill ei ddoethuriaeth yn ddiweddar. Dymunwn yn dda iawn iddo ar gyfer y dyfodol.

**Cartref Newydd**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Chris, Nia, Elen a Rhiannon Brown wrth iddynt ymgartrefu yn Rhiwbina.

**Gwyliau'r Capel**

Yr wythnos yn arwain lan at y Pasg aeth tua 40 o'r capel i fwynhau tridiau yn Y Bala, ac aros yng nghanolfan Bryn y Groes. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn amrywio o nofio cyn brecwast (i'r rhai dewr!) i cwis gyda'r nos. Bob bore edrychwyd ar rai o ddywediadau Iesu Grist ar y Groes a chafwyd epilog bob nos gan Emyr ein gweinidog yn ystyried Mair o Fethania. Roedd pawb yn tystio i'r mwynhâd a'r fendith a gafwyd o gael mwynhau cwmni ei gilydd mewn ffordd mor naturiol ac ymlaciol ar ôl cyfnod mor hir.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Bydd y sesiynau poblogaidd yma dan arweiniad yr Athro E. Wyn James yn ail gychwyn nos Iau cyntaf mis Mai. Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno drwy gysylltu â Wyn ar jamesew@caerdydd.ac.uk.

**Dathlu'r Atgyfodiad**

Fore Sul y Pasg atgoffodd Emyr ni o dri gwirionedd pwysig am atgyfodiad Iesu Grist. Pwysleisiwyd ei fod yn atgyfodiad corfforol, yn atgyfodiad

ysgrythurol ac atgyfodiad personol.

Yn y prynhawn buom yn dathlu'r Atgyfodiad gyda'n gilydd yn yr awyr agored ar y Comin yn Yr Eglwys Newydd. Cafwyd darlleniad a pherfformiad o'r hanes gan rai o'r oedolion a phlant ac anerchiad byr gan Emyr ar y diwedd. Yna cafwyd amser i gymdeithasu a mwynhau paned a nythod Pasg siocled.

**Ysgoloriaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Fflur Bowen ar ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth.

# RWSIA - Y BWYSTFIL AFLONYDD

*D. Gareth Edwards, cyn aelod o Adran Addysg, Prifysgol Aberystwyth, bellach o Bontcanna, sy'n sôn am ei brofiadau diddorol wrth ymweld â Rwsia cyn dymchwel yr Undeb Sofietaidd.*

Fy mwriad wrth ymweld â Rwsia gyntaf oll yn 1986, dan nawdd y Cyngor Prydeinig, oedd archwilio perthynas y Rwsieg a'r amrywiol ieithoedd eraill a siaredir o fewn ffiniau'r Undeb Sofietaidd. Ers hynny, chwalwyd yr Undeb comiwnyddol anferth yn 15 cenedl o amrywiol faintioli. Y weriniaeth fwyaf yw Rwsia gyda 52% o holl boblogaeth yr Undeb; a'r Rwsieg ei phrif iaith. O blith y 14 gweriniaeth yn weddill, yr ail fwyaf o ran maint yw Wcráin sy'n cyfrif am 16% o'r boblogaeth y mae Putin am ei hychwanegu at ei diriogaeth ef. Y drydedd yw'r Uzbekiaid sy'n cyfrif am 5%.



Mae'r ffigyrau hyn yn dangos yn glir nerth cenedl y Rwsiaid o'i chymharu â'r gweddill. Yn naturiol felly, am resymau gwleidyddol ystyrid Rwsieg yn gyfrwng i uno'r bobloedd. Nid yn annisgwyl, fodd bynnag, gwelir bod pellter daearyddol o Rwsia yn golygu bod dysgu Rwsieg fel ail iaith yn llai deniadol a llai effeithiol.

Dyma rai ystadegau o gyfrifiad 1979 a roddwyd i mi; maent yn eithaf arwyddocaol:

Wcráin - Iaith y Dalaith = 83%; Rwsieg ail iaith = 50%; Lithiwania - Iaith y Dalaith = 98%; Rwsieg ail iaith = 52%; Georgia - Iaith y Dalaith = 98%; Rwsieg ail iaith = 27%.

Un o'r lleoedd mwyaf calonogol ar fy rhaglen oedd ym Mhrifysgol Leningrad. Yn y ddinas urddasol honno, y dychwelwyd i'w henw gwreiddiol St. Petersburg, darperir athrawon i ddysgu mewn rhai o ardaloedd mwyaf anhygyrch y byd a thrwy rhai o'r ieithoedd prinnaf a siaredir. Ar wasgar ar hyd ac ar led Siberia enfawr, ceir tua phump ar hugain o lwythau, pob un yn siarad ei iaith ei hun. A phriod waith yr adran hon oedd hybu'r diwylliannau ethnig hyn drwy hyfforddi rhai o'u hieuenctid mwyaf dethol i ddysgu Rwsieg fel ail iaith ond yn bennaf oll i fod yn gynheiliaid iaith a thraddodiadau eu llwyth. Cânt felly eu trwytho mewn hanes, iaith, crefftau ac arferion gwerin eu cymdeithas yng nghyd-destun yr Undeb Sofietaidd.

Diddorol oedd clywed ambell un yn dweud mai cenhadon Cristnogol ddaeth ag addysg i'w hardaloedd gyntaf oll. A darllenais bod yr Ymerodres Catherine, arweinydd mwyaf llwyddiannus Rwsia erioed, wedi mabwysiadu cynllun Gruffudd Jones, Llanddowror, a'i ysgolion cylchynnol i ddysgu darllen i'r werin.

Ar ôl wythnos a mwy yng nghwmni addysgwyr brwdfrydig Moscow a Leningrad daeth tro eithaf annisgwyl. Ar ben draw taith trên dros nos cyrhaeddais Lithiwania ar Fôr y Baltig. Ac wrth gyrraedd yr orsaf eang deuthum yn ymwybodol iawn o falchder y trigolion yn eu diwylliant a'u hiaith genedlaethol. Yn ei phrifddinas, Vilnius, roedd yn well gan y Gweinidog Addysg a'i swyddogion drafod yn eu mamiaith nag yn y Rwsieg. Ac un noson fe drefnwyd i mi fynd i weld opera newydd am un o ymladdwyr amlycaf eu hiaith. Prifardd cenedlaethol ac offeiriad plwy ydoedd a frwydrodd am statws i'r Lithiwaneg ddwy ganrif ynghynt. Wrth synhwyro'r awyrgylch fe'm hatgoffwyd yn gryf am Saunders Lewis a'i ddarlith radio dyngedfennol. Roedd ymateb y gynulleidfa enfawr i ddarnau mwyaf dramatig yr opera lle câi'r arwr ei othrymu am siarad ei famiaith ac yna'u balchder yn ei fuddugoliaeth derfynol, yn cymeradwyo mwy na boddhad mewn cyflwyniad dramatig newydd. Roedd yno galon cenedl yn curo. Ar gyrraedd ein gwesty'r noson honno cyfaddefodd fy nghyfieithydd Rwsiaidd o Foscow ei fod yn teimlo'n hollol ddieithr ac anghysurus yn y perfformiad.

Drannoeth ar ein taith gyda fy nghyfieithydd Lithiwaneg yn ei char i ysgol uwchradd i wylio gwers Saesneg cefais gyfle i egluro sefyllfa'r Gymraeg a'r bygythiad parhaus arni. Pan sylweddololdd fy mhryder innau am fy mamiaith yng Nghymru, agorodd ei chalon i mi a chyfaddef gymaint oedd gormes y Sofietiaid yn tanseilio hyder a dyhead ei chenedl. Roedd hi'n wraig i uchel-swyddog ac yn eithriadol o alluog. A'i huchelgais syml oedd bod yn rhydd o hualau'r drefn Gomiwnyddol i deithio'r byd. O fewn ychydig flynyddoedd enillwyd y rhyddid hwnnw.

Ond mae Putin bellach yn bygwth rhyddid cenhedloedd Môr y Baltig. Gyda Lithiwania, Estonia a Latfia yn dyheu am berthyn i genhedloedd democrataidd Gorllewin Ewrop cânt achos i bryderu yn fwy nag erioed. Cadarnhawyd hynny wrth ymweld â nhw dair blynedd yn ôl ac yn arbennig amgueddfa fechan yn Latfia gydag oriel o luniau yn arddangos tlodi bywyd dan Gomiwnyddiaeth.

Yn yr un modd, ymhell i'r de wrth ymweld â Phrifysgol Yerevan yn Armenia gan rannu ffîn â Thwrci Foslemaidd pwysleiswyd mai honno oedd y wlad gyntaf yn y byd i arddel Cristnogaeth yn grefydd swyddogol. Roedd sefyll ymhlith tyrfa o addolwyr o bob oed a chefndir yn Eglwys Gadeiriol hynafol Echmiadzin yn llafarganu eu cyffes uniongred gerbron offeiriadon yn eu gwisgoedd urddasol yn brofiad yr un mor wefreiddiol â'r noson wladgarol yn yr opera!

Yn ôl y newyddion digalon diweddaraf, mae'n ymddangos mai polisi Putin wrth geisio cipio Wcráin yw brasgamu'n haerllug i adfer yr hen Undeb Sofietaidd. Nid syndod felly bod y llu cenhedloedd bychain yn pryderu o gofio mor llwm oedd bywyd a mor ddiymadferth oedd gwrthsefyll y drefn ganolog Rwsiaidd.

# Murmuron y Meic
## Atgofion am y BBC Llandaf



### Hannah Roberts

Helo.
I ble ma'r geirie canlynol yn mynd a chi gwetwch? Henry Higgins, ne' "Enery Iggins" athro ffonetig, a'i fryd ar ffindo merch o'r dosbarth gweithiol, a'i throi yn "Ladi"!! Ac fe dda'th o hyd i Eliza Doolittle - Cockney. Chi'n cofio pwy o'dd pwy? Rex Harrison o'dd y Proff, ac Audrey Hepburn y ferch. Ie, drama lwyfan gan George Bernard Shaw ddigwyddws gynta' yn 1913, yna ei throi miwn i ffilm.

A'r caneuon: "Wouldn't it be loverly," "With a little bit of luck," "The Rain in Spain" a "I could have danced all night". A'r geire: "*Oi'm a gwg girl oi em*"!!

Ma'r sioe yn dŵad i Ganolfan y Mileniwm o'r *West End* ym mis Tachwedd.

Wel, ar ôl y cyflwyniad 'na i greu bach o awyrgylch, yn rhifyn Mis Mawrth o'r *Dinesydd*, ddarllenes i am atgofion un o grŵp "Yr Henessys" am yr hen BBC yn Llandâf. Fuws y'n grwp ni sef "Y Cwennod" yn canu ar yr un rhaglen a nhw ar ddechre'r 60'au, un o'r raglenni Pop cynta' ar y teledu, a Ruth Price yn cynhyrchu. Ar y rhaglen hefyd o'dd Derek Bwt, Aled a Reg, Mari Griffith, Ryan a Ronnie ac yn y bla'n.

Nawr roswch da fi, a fydd y wawr yn torri!! Chi'n ishte'n gwffwrdus? Reit, fe ddechria i.

Nôl ar ddechre'r 80'au (a 'dw i fanna 'to erbyn hyn!!!) o'n i newydd orffen y shifft fore yn yr Adran Gyflwyno yn y "Bîb", a miwn a fi i'r dre. Pyrt hynny, o'dd siop ddillad ail law godderbyn a'r castell, ac yno o'n i'n "browsan" yn dawel. M'wn sbel, ma llaish y siopwr yn gofyn: "*Have you got time on your hands?*" "*Yes*" atepes. "*I bought a dress in an auction in London yesterday. I know that it would fit you perfectly. Will you try it?*" Wel ma'r ffrog yn dŵad, a fi'n ei thrïo hi, a o'dd, o'dd hi yn ffito'n berffeth. Prish? £300 punt!! Ffortshwn yn nechre'r 80'au. Wrth ei thynnu bant, ma'r llaish yn gofyn 'to, "*Did you look at the label?*" Felly, yng ngeirie T H P Williams, "Dyma fi'n gneud" A WAW!!! Na le o'dd yr enw, AUDREY HEPBURN!! Hon o'dd yr union ffrog daffeta ddu a gwyn wishgws hi ar ôl troi'n "Ladi" yn y ffilm "*My Fair Lady*". "*Buy it*" medde fe, "*You have the same slim figure as the actress*". Na "gompliment" te!!!

Wel o'dd dim gopeth o'dd 'da fi ddim y modd!!

Reit, "ffast fforward" i ryw bum mlynedd yn ôl, a finne'n atrodd y stori ar raglen Sian Cothi un bore. Wrth ddod mas, a mynd lawr y stepe, dyma laish Arfon Heinz Davies yn y ngalw i, o'dd e 'di bod ar y rhaglen 'fyd, diddordeb mawr 'da fe miwn hen bethe, a wetws e ei fod wedi bod m'wn ocshwn 'chytyg cyn 'ny, a beth o'dd ar werth ond Y FFROG HONNO.

Werthws hi am filiynne!!!!!!

Na dr'eni nag o'dd da fi £300 bitw i sbario yn yr 80au. Ma bywyd yn llawn o "Beth pe bais" ond yw e? Pyrt hynny, o'dd da fi braidd ginog i gwnni'r latsh!!!! A 'ma fi, yn dal yn Llandâf yn lle ar ryw ynys bellennig fel Mustique!!!!!!

Ah wel. Da boch chi am nawr. Stori arall o Murmur y Meic mish nesa.

# Merched y Wawr Caerdydd

Mae ambell noson sydd yn falm i'r enaid. Noson felly gawsom ni yng nghwmni Robat Arwyn fis Ebrill wrth iddo rannu efo ni "y stori tu ôl i'r gân". Mae caneuon Arwyn yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom ac yntau'n gyfansoddwr toreithiog, wedi cyhoeddi unarddeg cyfrol o ganeuon, nifer o ddarnau corawl unigol, ac ymhlith ei chwe chomisiwn i'r Eisteddfod Genedlaethol mae 'Atgof o'r Sêr' (2001), 'Er Hwylio'r Haul' (2005), a 'Hwn yw fy Mrawd' (2018), y tri wedi eu hysgrifennu'n arbennig ar gyfer Syr Bryn Terfel. Mae dros 150 o'i ganeuon wedi cael eu recordio, yn eu plith 'Yfory', 'Pedair Oed', 'Brenin y Sêr', 'Anfonaf Angel' a 'Benedictus'.

Soniodd fod llawer o ddiolch i Eirlys Parri am roi iddo ei gomisiwn cyntaf ym 1984 pan gyfansoddodd y gân eiconig 'Yfory'. Cawsom ganddo hefyd y stori tu ôl i gyfansoddi 'Benedictus' a chlywed bod côr y Fatican a'r triawd byd-enwog *The Priests* wedi ei recordio gan werthu dwy filiwn o gopïau a chael llwyddiant byd-eang! Ochr yn ochr â hyn rhannodd efo ni y stori o gyfansoddi caneuon penodol i'w fab a'i ferch pan oedden nhw'n blant bach.

Pleser oedd cael y cefndir a chlywed y cyfansoddwr ei hun yn canu y caneuon. Gwibiodd y noson a phawb yn gytûn bod blas mwy.






## Ein corau ni'n serennu yng Nghystadleuaeth Côr Cymru

Llongyfarchiadau gwresog i Gôrdydd am gael eu coroni'n bencampwyr Côr Cymru 2022 S4C am y tro cyntaf yn hanes y côr. Roedd tri chôr o ardal Caerdydd a'r Fro wedi cyrraedd y rownd derfynol: Côrdydd dan arweiniad Huw Ffowcs, CF1 dan arweiniad Eilir Griffiths Owen a Chôr Heol y March dan arweiniad Eleri Roberts. Cafwyd perfformiadau o safon uchel o ddarnau heriol a thechnegol iawn gan yr holl gorau. Yr uchafbwyntiau nodedig oedd perfformiad cofiadwy Côrdydd o'r darn 'Softly', perfformiad ysgytwol CF1 o'r darn deg llais 'Snowdance for the Dead' a pherfformiad angerddol côr Heol y March o 'Gwahoddiad,' trefniant gan Geraint Cynan. Roedd beirniaid rhyngwladol y gystadleuaeth wedi eu syfrdanu gan berfformiadau'r corau. Mae'r rhaglen hon yn dal ar gael i'w gwylio ar S4C Clic.

Roedd Côrdydd hefyd yn perfformio'n fyw ddiwedd mis Ebrill yng Nghanolfan y Gate Caerdydd i theatr lawn. Hwn oedd y perfformiad cyntaf o'r sioe 'Te yn y Grug' gydag Al Lewis a gomisiynwyd ar gyfer Eisteddfod Llanrwst 2019, ac sydd bellach ar daith drwy Gymru gyda chorau amrywiol yn cymryd rhan.

*Iestyn Davies*



## Pobol y Rhigwm

Mae cystadleuaeth y mis hwn yn enghraifft ar y pegwn cadarnhaol o'r ymadrodd 'nid pa faint ond sut rai'. Dau driban yn unig a ddaeth i law ond dau driban o safon gyda hynny, sy'n gwbwl driw i ofynion y mesur ac – yn eu ffyrdd eu hunain – wedi siarad â'r beirniad. Dyna ddau hanfod y gystadleuaeth fisol hon, parchu mydryddiaeth ac ennyn ymdeimlad. Dyma gynigion y *Garddwr Rhan Amser* a *Gwern* fel ei gilydd, yn ogystal â'm sylwadau.

Blagur perth, coed a rhosyn,
Sy'n ymrwygo o'u plisgyn,
Addewid o ryw ffrwyth neu ddail,
Ond heb ei ail, bydd blodyn!

*Y Garddwr Rhan Amser*

Triban yn y traddodiad clasurol yw hwn (os gellir priodoli'r cyfryw gategori i'r mesurau rhyddion hefyd!). Mae'n syml ac yn uniongyrchol, ond dyna sy' eisie mewn pennill pedwar llinell. Yn ei hanfod, mae'n *gynnil*, fel pob triban gwerth ei halen. Mae'n delweddu'n hyfryd ac yn ogystal â chrynhoi harddwch diamser y coed a'r perthi yn y gwanwyn, gall hefyd weithio fel metaffor am fywyd bob dydd – yr angen i ddathlu'r blodau bach sy'n harddu bywyd yn y fan a'r lle, wrth obeithio am ffrwythau maes o law. Dyma ymgais sy'n dangos gafel ar fesur (mae'r beirniad hwn yn hoff o gyfri sillafau, wrth gwrs!) ac yn meddu ar y gallu i ddelweddu mewn ychydig eiriau. Un geiryn o gyngor, fe arfer mae'n well osgoi defnyddio teitl y gerdd yn y gerdd ei hun – ond hollti blew yw peth felly yn yr achos hwn!

Bu Gwalia yn arloesi
Ers dyddiau cyfrin Dewi,
A lleisir heddiw rym yr hedd
Heb gledd ym mhair y geni.

*Gwern*

Dyma berl go iawn o driban. Wn i ddim ble i ddechrau ei ddadansoddi, cymaint yw'r sylwedd sy'n perthyn iddo. Mae'n gwbwl gywir o ran mydryddiaeth, wrth gwrs ond sylwch ar ba mor esmwyth y mae'n *llifo*, hefyd – hyd yn oed ar bapur, mae'n darllen yn gwbwl naturiol a'r llinellau'n plethu'n ddiymdrech i'w gilydd. Yr hyn sy' fwya trawiadol am y triban hwn yw'r dyfnder cynnil – mawlgan fer i'r traddodiad hirhoedlog o heddychiaeth a dulliau heddychlon yng Nghymru sy' yma ond mae hynny wedi'i gyfleu trwy ddethol geirie ac ymadroddion yn ofalus. Does dim gwastraffu geirie yma, mae pob un yn hawlio'i le. "Gwalia" yn lle 'Cymru', er enghraifft, "Dewi" yn lle 'Dewi Sant' – mae gallu un gair i sbarduno cysyniad yn y meddwl yn rhywbeth syfrdanol mewn pennill sy wedi'i gyfyngu i 29 o sillafau. Mae'r cyfeiriad at y Mabinogion (hyd yn oed y ffugenw!) yn rhoi eisin ar y triban gyda'r ymdeimlad hanfodol Gymreig sy'n perthyn iddo a'r pair, wedyn, yn gyfystyr â blagur, y dadeni heddychlon. Fe fydda i'n ceisio argyhoeddi aelodau o'm dosbarth cynganeddu o'r dechneg effeithiol o gynnwys elfen o gyferbyniad rhwng y paladr a'r esgyll mewn englynion. Felly hefyd mewn tribannau. Mae *Gwern* – mewn pedair llinell, sylwch – wedi llwyddo i uno treftadaeth heddychlon Cymru "ers dyddiau cyfrin Dewi" yn y ddwy linell gynta gyda'r angen dybryd am eiriolaeth o blaid heddwch ar hyn o bryd, wrth gofio'r delweddau torcalonnus a ddaw i'n rhan o Wcráin ar y teledu bob nos. Mae'r cyferbyniad rhwng "grym" a "hedd" yn wych, hefyd. Mae'n dwyn i gof triban a glywais gan y Prifardd Emyr Lewis ar y Talwrn rhyw dro:

*Mae straeon Sarajevo*
*yn codi'r cwestiwn eto:*
*Ai ond inc du y ddalen flaen*
*yw'r staen sydd ar fy nwylo?*

Triban *gobeithiol* sy gan *Gwern*, yn ei hanfod, y syniad – a'r hyder – y byddwn ni yn y Walia waraidd yn tanlinellu hanfod gweithredu heb y cledd, a'r ymdeimlad hwnnw'n blaguro mewn gwanwyn sy', wrth unrhyw linyn mesur, wedi bod yn ddigon tywyll eleni.

Nid ar chwarae bach mae sgrifennu triban mor goeth â hwn, sy'n llwyddo i gynnwys cymaint heb fod yn glogyrnaidd. Mae'r neges yn un amserol a'n gwbwl glir. Gobeithio y bydd y *Garddwr Rhan Amser* yn deall ei fod wedi digwydd mynd benben ag ymgais go neilltuol y tro hwn ac mai *Gwern* sy'n teilyngu'r wobr, heb os nac onibai.

**Enillydd tasg Ebrill yw**
**Trefor Huw Jones, Pentre'r Eglwys**


**Cystadleuaeth mis Mai**
**Limrig i gynnwys y llinell:**
**Mae rhai yn fy ngalw'n fusneslyd**

*Aron Pritchard*

Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Mai, 2022 at:
eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr £10.


**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Rhif: 223




### Ar Draws
6. Torri gwar Don wrth ddal sylw (7)
7. 'Cyfiawnder, mae'n disgleirio'n danbaid
Wrth faddau'n nhrefn y ----- rhad' (AG) (5)
9. Rhagorach ganol haf i iachau (5)
10. Creu byd iach yn dilyn yr egwyddorion cyntaf a gwaedd (7)
12. Drwg ergydio y llygredig (11)
14. 'Gwn ei ddyfod mis y mêl
Gyda'i firi, ----- -----' (EW) (4'1,6)
18. 'Drain ----- ----- mall a'i medd,
Mieri lle bu mawredd' (EE) (2,5)
19. Perthynas ag ofn ddechrau dieithr (5)
21. Mae hon yn swnio fel arlunydd (5)
22. Tymor yr anifeilaid llipa (7)

### I Lawr
1. '----- wedi hirnos, cân wedi loes
Nerth wedi llesgedd, coron 'r ôl croes' (cyf JDVL) (5)
2. Llawer o ddwylo yn gynorthwy. (6)
3. Bwrw eira mewn cyfnod iasol (3)
4. Cant o elyrch yn ymfudo i le poblogaidd (6)
5. Gwlad Mr Abramovich? 'Ie' meddai'r Gogleddwr (7)
8. 'Cerddi'r môr yn dwfn anadlu
Ger ----- wrth droi'n ei gwsg' (AEJ) (7)
11. Nerthu y galluog i wasgaru (7)
13. Canodd fel rocer o'r 70au efallai? (7)
15. Mesura y munudau (6)
16. Ail-adrodd mantra gorchudd y llygad (6)
17. Dacw hanner gŵr yn y sach (5)
20. Cusan o foch i foch (3)




**Enillydd Croesair Rhif 221**
**Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 221**

**Ar Draws:** 6. Atodiad 7. Maneg 9. Sêt 10. Draenogod 12. Y bugail mwyn 15. Mawr fel Duw, a 17. Ymdawelaf 19. Dyn 21. Noson 22. Llawenydd

**I Lawr:** 1. Staer 2. Odi 3. Caer 4. Ran o'r mawl 5. Oedolyn 8. Mediad 11. Aberdaron 13. Gweled 14. Salmdon 16. Dyrys 18. Arab 20. Hen

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Mehefin, 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

# Merched y Wawr Y Felin

Os oes y fath beth a ymgorfforiad o charisma Cymraeg yn bod, Aled Gwyn yw'r boi. Bu Aled yn ddigon caredig i ymweld â ni ar nos Iau yr 21ain o Ebrill fel siaradwr gwadd.

Wrth iddo sôn yn ei ffordd ddihafal am fanteision gwisgo mwgwd, ei fam, eisteddfodau, y tro nath e wynebu ei nemesis a mwy, fe wnaethom ni, y gynulleidfa ymlacio'n llwyr. Roeddem yn gallu gweld pob hanes ac yn teimlo ein bod ni yno gyda fe. Fe wnaethom anghofio pob gofid a chael joio gwrando ar y meistr o *raconteur* sy'n wirioneddol unigryw. Anfarwol!

Os am ymuno â ni y tro nesaf, ry'n ni'n cyfarfod ar y 3ydd nos Iau bob mis yn yr Eglwys Fethodistaidd, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd. Croeso mawr i aelodau newydd.

*Glenys Evans*



# Dathlu llwyddiant ac edrych ymlaen...


Pwy sy'n hoffi tywydd braf ac awyr iach? Wel, er nad oes modd i ni sicrhau haul a hindda, fe allwn ni addo digon o gyfle i fwynhau'r awyr agored yn y gwanwyn a'r haf.

Byddwn yn darparu amryw o deithiau cerdded dros y misoedd nesaf i gerddwyr o bob safon. Beth am ymuno â ni ym Mharc Gwledig Cosmeston fore Sul, 8 Mai am ddwy awr o gerdded a sgwrsio? Mae croeso arbennig i ddysgwyr ar y daith arbennig hon.

Ar fore Iau, 19 Mai, byddwn ni'n crwydro ym Mae Caerdydd. Beth am alw yn yr Eglwys Norwyaidd ar ôl y daith i weld y ganolfan ar ei newydd wedd?

Byddwn yn croesi bysedd am dywydd sych ddydd Sadwrn, 21 Mai wrth i griw Menter Iaith Bro Morgannwg gynnal Gŵyl Fach y Fro yn Ynys y Barri. Dewch draw i fwynhau gwledd o gerddoriaeth yng nghwmni MR, Huw Chiswell, Morgan Elwy, Bwncath ac eraill.

Nos Iau, 19 Mai, fel rhan o'r Ŵyl ffrinj, bydd sgwrs Zoom yng nghwmni 'Gwenyn Gruffydd' ar drothwy Diwrnod Rhyngwladol y Gwenyn. Yr wythnos ganlynol, nos Iau, 26 Mai, Sara Huws o Brifysgol Caerdydd fydd yn cynnal *Sgwrs y Mis* gan ddatgelu 'Trysorau Cudd yr Hen Lyfrgell – Llyfrau Prin Caerdydd'.







Cofiwch hefyd am ein teithiau bws a'r cyngherddau cymunedol sy'n ail-ddechrau fore Llun, 9 Mai yng nghanolfan Beulah, Rhiwbeina. Hyn oll, yn ogystal â'r clybiau hwyliog i blant a phobl ifanc - a gweithgareddau di-ri yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.

Dros yr wythnosau diwethaf rydyn ni yn y Mentrau wedi cael tipyn o achos dathlu. Mae ceisiadau llwyddiannus am grantiau gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ymhlith eraill, yn ein galluogi i gynnal ystod eang o weithgareddau i bobl o bob oed drwy gydol y flwyddyn. Rydym yn hynod falch bod ein gwaith hefyd wedi derbyn clod yn noson wobrwyo 'Cardiff Life'. Fe enillodd Menter Caerdydd ddwy wobr, gan gynnwys y brif wobr 'Platinwm' ar gyfer cwmni neu sefydliad sydd wedi cael dylanwad cadarnhaol sylweddol ar fywyd yn y brifddinas. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gydnabyddiaeth sy'n deyrnged, nid yn unig i waith caled ein staff, ond i chi, y rhai sy'n mynychu ein gweithgareddau. Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at haf prysur a phleserus yn eich cwmni.

Am fwy o wybodaeth:
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888